**Rhif: WG51387**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Newidiadau i Hawliau Datblygu a Ganiateir

Pympiau Gwres o'r Aer, Gwefrwyr Cerbydau Trydan Parcio Oddi ar y Stryd, Safleoedd Gwersylla Dros Dro, Peiriannau Gwerthu Gwrthdro, Datblygiad gan Ymgymerwyr Statudol (trydan), Tai Fforddiadwy a Defnyddiau yn y Cyfamser; a newid i'r diffiniad o ddatblygiad mawr

Dyddiad cyhoeddi: 8 o Ebrill 2025

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 1 o Orffennaf 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51387

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich safbwyntiau ar newidiadau arfaethedig i amryw hawliau datblygu a ganiateir yng Nghymru a amlinellir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, gan gynnwys:

- Pympiau gwres o'r aer
- Unedau gwefru cerbydau trydan parcio oddi ar y stryd
- Safleoedd gwersylla dros dro
- Peiriannau gwerthu gwrthdro
- Datblygiad gan ymgymerwyr statudol (trydan)
- Safleoedd tai fforddiadwy a defnyddiau yn y cyfamser

Ceisir eich safbwyntiau hefyd ar newid arfaethedig i'r diffiniad o ddatblygiad mawr a amlinellir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) 2012.

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 1 o Orffennaf 2025. Gallwch ymateb trwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

**Ffurflen ar-lein**: Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein ar dudalen ryngrwyd yr ymgynghoriad.

**E-bost**: Lawrlwythwch a llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon at: planconsultations-c@llyw.cymru

Nodwch WG51387 'Newidiadau i Hawliau Datblygu a Ganiateir' yn y llinell bwnc.

**Post**: Lawrlwythwch a llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon at:

WG51387 – Newidiadau i Hawliau Datblygu a Ganiateir
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

- **Trwy e-bost:** planconsultations-c@llyw.cymru

- Ar gyfer pympiau gwres o'r aer a gwefru cerbydau trydan oddi ar y stryd
  **Ffoniwch:** Marged Wyatt ar 0300 025 1352

- Ar gyfer safleoedd gwersylla dros dro, peiriannau gwerthu gwrthdro, ymgymerwyr statudol (trydan), safleoedd tai fforddiadwy a defnyddiau yn y cyfamser; Diffiniad o ddatblygiad mawr.
  **Ffoniwch:** Kris Hawkins ar 0300 025 3491

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English:

https://www.gov.wales/changes-permitted-development-rights

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.
Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: dataprotectionofficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys


1.Cwmpas yr Ymgynghoriad

2.Pympiau Gwres o'r Aer

3.Gwefru Cerbydau Trydan Oddi ar y Stryd

4.Ymgynghoriad 2021: Diwygiadau i hawliau datblygu a ganiateir

5.Safleoedd Gwersylla Dros Dro

6. Peiriannau Gwerthu Gwrthdro

7. Ymgymerwyr Trydan

8. Tai Fforddiadwy Brys a Defnyddiau yn y Cyfamser

9. Diffiniad o Ddatblygiad Mawr

10. Iawndal am Ddileu Hawliau Datblygu a Ganiateir yn y Dyfodol

11.Ystyriaethau yn Ymwneud â'r Gymraeg

12. Crynodeb o'r Cwestiynau Ymgynghori

**NEWIDIADAU I HAWLIAU DATBLYGU A GANIATEIR**
**YMGYNGHORIAD**
**PYMPIAU GWRES O'R AER, GWEFRWYR CERBYDAU TRYDAN ODDI AR Y STRYD, SAFLEOEDD GWERSYLLA DROS DRO, PEIRIANNAU GWERTHU GWRTHDRO, YMGYMERWYR TRYDAN, SAFLEOEDD TAI FFORDDIADWY A DEFNYDDIAU YN Y CYFAMSER, DIFFINIAD O DDATBLYGIAD MAWR**

## 1. CWMPAS YR YMGYNGHORIAD

1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ar gynigion sy'n ymwneud â hawliau datblygu a ganiateir. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y system gynllunio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ymatebol. Mae hawliau datblygu a ganiateir yn darparu hyblygrwydd a rhyddidau cynllunio i wahanol ddefnyddwyr, gan gynnwys deiliaid tai a busnesau.

1.2 Amlinellir hawliau datblygu a ganiateir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("Gorchymyn 1995"). Mae'r newidiadau rydym yn ceisio safbwyntiau arnynt yn ymwneud â'r canlynol:

- Pympiau gwres o'r aer domestig
- Seilwaith gwefru cerbydau trydan oddi ar y stryd
- Safleoedd gwersylla dros dro
- Peiriannau gwerthu gwrthdro
- Datblygiad gan ymgymerwyr statudol (trydan)
- Tai fforddiadwy brys a defnyddiau yn y cyfamser
- Diffiniad o 'Ddatblygiad Mawr'

1.3 Yng Nghymru, mae gosod pympiau gwres o'r aer, seilwaith gwefru cerbydau trydan wedi'i leoli mewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon i barcio oddi ar y stryd, safleoedd gwersylla dros dro, a datblygiad gan ymgymerwyr statudol (trydan) i gyd yn elwa o hawliau datblygu a ganiateir presennol. Nid yw Peiriannau Gwerthu Gwrthdro (a adwaenir hefyd fel peiriannau dychwelyd ernes) yn elwa o hawliau datblygu a ganiateir ar hyn o bryd.

1.4 Mae hawliau datblygu a ganiateir yn caniatáu i rai datblygiadau gael eu cynnal heb fod angen cyflwyno cais cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, yn ddarostyngedig i rai cyfyngiadau ac amodau. Pan groesir cyfyngiadau ac amodau, bydd angen cais cynllunio fel y gellir ystyried cynllun ac unrhyw effeithiau posibl yn fanylach.

1.5 Rydym yn ymgynghori ar newidiadau i'r hawl datblygu a ganiateir bresennol sy'n caniatáu ar gyfer gosod pympiau gwres o'r aer ar neu o fewn cwrtil tŷ annedd a

fydd yn helpu i hyrwyddo a chefnogi'r broses o fabwysiadu pympiau gwres o'r aer.

1.6 Yn ogystal, rydym yn ymgynghori ar newidiadau i'r hawliau datblygu a ganiateir presennol sy'n caniatáu ar gyfer gosod pwyntiau trydan a phileri gwefru i ailwefru cerbydau trydan. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o gyflwyno pwyntiau gwefru cerbydau trydan ymhellach yn unol â'r twf rhagfynedig mewn defnyddio cerbydau trydan ac i sicrhau bod seilwaith gwefru digonol ar gael i gefnogi targedau cerbydau dim allyriadau.

1.7 Rydym yn ymgynghori ar newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir o ran nifer y diwrnodau y caniateir defnyddio tir dros dro ar gyfer gwersylla.

1.8 Rydym yn ymgynghori ar roi hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gosod Peiriannau Gwerthu Gwrthdro. Mae peiriannau gwerthu gwrthdro, a adwaenir hefyd fel peiriannau dychwelyd ernes, wedi'u dylunio i gasglu ac ailgylchu cynwysyddion diodydd. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno rheoliadau cynllun dychwelyd ernes yn gynnar yn 2025, yn barod ar gyfer lansio'r cynllun yn llawn yn 2027.

1.9 Rydym yn ymgynghori ar ddatblygiad gan ymgymerwyr statudol (trydan) sy'n ymwneud â galluogi datblygiad i gydymffurfio â safonau diogelwch, a hefyd cynyddu'r gallu i amnewid cyfarpar a llinellau presennol. Rydym hefyd yn ymgynghori ar gynnwys gweithredwyr mesuryddion deallus yn y diffiniad o ymgymerwyr statudol.

1.10 Rydym hefyd yn ystyried creu dosbarth datblygiad a ganiateir newydd ar gyfer darparu tai fforddiadwy dros dro, am gyfnod o 5 mlynedd. Rydym yn ceisio eich safbwyntiau ar roi caniatâd cynllunio trwy hawliau datblygu a ganiateir i safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer tai fforddiadwy mewn cynlluniau datblygu lleol.

1.11 Diffinnir 'datblygiad mawr' yn erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 i hwyluso cyhoeddusrwydd ychwanegol ar gyfer datblygiadau mwy o faint. Rydym yn ymgynghori ar newidiadau i'r diffiniad lle y mae'n berthnasol i ddatblygu tai.

## 2. PYMPIAU GWRES O'R AER

### Cefndir

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon cartrefi. Disgwylir i Bympiau Gwres o'r Aer ddod yn un o'r prif ffynonellau technoleg gwresogi domestig, wrth i Gymru a'r Deyrnas Unedig geisio symud oddi wrth danwyddau ffosil i ddewisiadau amgen carbon isel a sero net. Bydd pympiau gwres o'r aer yn helpu i gynyddu cadernid a diogeledd ynni Cymru a darparu gwres mwy effeithlon i ddefnyddwyr.

2.2 Mae pympiau gwres o'r aer yn elwa o hawliau datblygu a ganiateir ar hyn o bryd a gellir eu gosod heb ganiatâd cynllunio, yn ddarostyngedig i rai cyfyngiadau ac amodau. Amlinellir hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer pympiau gwres o'r aer yn Rhan 40, Gosod Cyfarpar Microgynhyrchu Domestig, Dosbarth G Gorchymyn 1995. Gellir gweld yr hawliau datblygu a ganiateir presennol ar gyfer pympiau gwres o'r aer yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2012.

2.3 Er mwyn hyrwyddo a chefnogi'r broses o osod pympiau gwres o'r aer mewn cartrefi ledled Cymru a helpu i fodloni amcanion carbon isel, mae hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu hadolygu i ddiwygio neu ddileu rheoliadau a allai weithredu fel rhwystrau rhag gosod.

2.4 Er mai nod unrhyw newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir yw symleiddio gofynion a gweithdrefnau cynllunio, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i unrhyw effeithiau posibl ar yr amgylchedd ac amwynder lleol, fel nad yw unigolion a chymunedau'n cael eu hamlygu i unrhyw effeithiau negyddol annerbyniol.

2.5 Yn 2022, comisiynodd Adran Diogeledd Ynni a Sero Net Llywodraeth y Deyrnas Unedig adroddiad annibynnol o'r enw 'Adolygiad o Allyriadau Sŵn Pympiau Gwres o'r Aer, Canllawiau a Rheoliadau Datblygu a Ganiateir'. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar effaith sŵn pympiau gwres ar y cyhoedd a ph'un a yw rheolau cynllunio presennol yn rhwystro gosod pympiau gwres yn ehangach. Cyhoeddwyd yr adolygiad ym mis Ionawr 2023 a chynhyrchodd sawl argymhelliad ar gyfer newidiadau i'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer pympiau gwres yn Lloegr. Ymgynghorodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar newidiadau a lywiwyd gan yr adolygiad ym mis Chwefror 2024.

2.6 Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad - 'Sŵn Pympiau Gwres o'r Aer a Hawliau Datblygu a Ganiateir yng Nghymru' (rhan 1 a rhan 2).

2.7 Canolbwyntiodd yr adolygiad ar amlygu materion, casglu safbwyntiau a phrofiadau gan randdeiliaid, ac asesu effaith sŵn ar unigolion. Daeth y prif ganfyddiadau i'r casgliad er bod sŵn yn fater pwysig i'w reoli, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, fod cwynion yn gymharol isel. Argymhellodd yr adroddiad:

- ddiwygio neu ddileu'r rheol tri metr,
- darparu data gwell ar bympiau gwres o'r aer a'u lefelau sŵn i ganiatáu i ddefnyddwyr wneud dewisiadau gwell,
- cydnabod pwysigrwydd rhwystrau ffisegol i liniaru sŵn, a
- diweddaru safonau MCS.

2.8 Mae adolygiadau Cymru a Lloegr o bympiau gwres o'r aer, adolygiad Safonau Cynllunio 020 y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (MCS) (gweler isod), a thrafodaethau parhaus â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi helpu i lywio'r cynigion ar gyfer pympiau gwres o'r aer a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ynglŷn â ph'un a ddylid diwygio'r newidiadau i ddatblygu a ganiateir yng Nghymru i ganiatáu mwy o hyblygrwydd ar gyfer gosod pympiau gwres o'r aer. Mae'n bosibl y bydd yr adolygiad hefyd yn cyflwyno mwy o gysondeb rhwng hawliau datblygu a ganiateir yng Nghymru a Lloegr.

**<u>Y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu</u>**

2.9 Mae'r Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (MCS) yn rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach. Mae'r MCS yn gorff annibynnol sy'n pennu gofynion gosod ac yn ardystio cynhyrchion carbon isel a gosodwyr i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau uchel.

2.10 Mae'r hawliau datblygu a ganiateir presennol ar gyfer pympiau gwres o'r aer yng Nghymru a Lloegr yn mynnu bod y pwmp gwres yn cael ei osod yn unol â Safon Gynllunio 020 y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (MCS) (neu safon gyfwerth). Mae Safon Gynllunio 020 yr MCS yn amlinellu'r fethodoleg asesu sŵn a ddefnyddir gan osodwyr i bennu a yw pwmp gwres o'r aer yn cydymffurfio â therfyn sŵn sefydledig yr MCS. Mae MCS 020 wedi'i llunio i ganiatáu i gontractwyr ardystiedig gadarnhau p'un a fydd gosodiad yn bodloni gofynion datblygu a ganiateir.

2.11 Mae'r MCS wedi cychwyn ei adolygiad a'i ymgynghoriad ei hun o Safon Gynllunio 020 i adlewyrchu a chefnogi gwaith Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â'r MCS i helpu i lywio'r broses hon. Daeth ymgynghoriad yr MCS i ben ar 26 Ionawr 2024. Mae'r newidiadau arfaethedig sy'n cael eu hystyried ar gyfer MCS 020 yn cynnwys gwella'r broses o ddiffinio rhwystr solet, yr hyn sy'n gyfystyr ag arwyneb adlewyrchol, tybiaethau ynglŷn â sŵn cefndir ac asesu sŵn, a chanllawiau ategol wedi'u diweddaru ar gyfer gosodwyr. Bydd y diwygiadau'n cryfhau'r gofynion gosod a'r asesiad sŵn sy'n ofynnol ar gyfer yr hawl datblygu a ganiateir. Mae rhagor o fanylion am ymgynghoriad MCS 020 a gwaith dilynol ar gael ar wefan yr MCS.

**Newidiadau i Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer Pympiau Gwres o'r Aer o fewn cwrtil eiddo domestig**

Ymestyn y math o bympiau gwres o'r aer sy'n dod o fewn hawliau datblygu a ganiateir

2.12 Ceir dau brif fath o bympiau gwres o'r aer, sef pympiau gwres **aer i ddŵr** a phympiau gwres **aer i aer**. Mae'r cyntaf yn trosglwyddo gwres o'r aer i ddŵr, y gellir ei ddefnyddio ar gyfer gwres canolog a dŵr poeth. Mae'r olaf yn trosglwyddo gwres rhwng aer o'r tu mewn a'r tu allan, gan ddarparu gwres yn ystod y misoedd oerach a gwrthdroi'r broses i oeri yn ystod y misoedd cynhesach.

2.13 Mae'r hawl datblygu a ganiateir bresennol yn amlinellu amod yn G.3 sy'n caniatáu datblygiad Dosbarth G:

(a) os defnyddir y pwmp gwres o'r aer at ddibenion gwresogi yn unig.

2.14 Mae amod G.3 (a) yn golygu na chaniateir pympiau gwres aer i aer, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn caniatáu oeri hefyd, o dan hawliau datblygu a ganiateir presennol. Er mwyn cynyddu'r dewis i ddefnyddwyr a hyblygrwydd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig dileu amod G.3 (a), gan felly ganiatáu gosod pympiau gwres aer i ddŵr ac aer i aer.

2.15 Nid yw systemau aer i aer wedi'u dylunio i wresogi dŵr ar hyn o bryd, maen nhw wedi'u dylunio i wresogi neu oeri mannau gan ddefnyddio system awyru. O ran effeithlonrwydd ynni, maen nhw'n debyg i bympiau gwres aer i ddŵr. Petai pympiau gwres aer i aer yn cael eu cynnwys o fewn hawliau datblygu a ganiateir, byddent yn ddarostyngedig i'r un hawliau datblygu a ganiateir a Safonau Cynllunio 020 yr MCS â phympiau gwres o'r aer presennol (h.y. systemau aer i ddŵr).

**Cwestiwn 1**

A ydych chi'n cytuno y dylai amod G.3 (a), sy'n mynnu bod pwmp gwres o'r aer yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwresogi yn unig, gael ei ddileu er mwyn gallu gosod pwmp gwres aer i aer hefyd?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

Pellter pwmp gwres o'r aer oddi wrth ffin eiddo – y rheol 3 metr

2.16 Mae'r hawl datblygu a ganiateir bresennol ar gyfer pympiau gwres o'r aer yng Nghymru yn mynnu bod rhaid i bob rhan o'r datblygiad fod o leiaf 3 metr oddi wrth ffin yr eiddo. Cyflwynwyd y rheol hon yn wreiddiol fel mesur rhagofalus i helpu i ddiogelu amwynder lleol a rheoli effeithiau sŵn posibl ar eiddo cyfagos. Fodd bynnag, mae technoleg pympiau gwres o'r aer wedi gwella dros amser, gan arwain at gynhyrchion tawelach a mwy effeithlon.

2.17 Cydnabyddir bod y rheol 3 metr bresennol yn cyflwyno heriau sylweddol i fabwysiadu pympiau gwres o'r aer yn helaeth. O ganlyniad, bydd angen i lawer o eiddo yng Nghymru gael caniatâd cynllunio i osod pympiau gwres o'r aer o dan yr hawliau datblygu a ganiateir presennol.

2.18 Fe allai cyflwyno cais cynllunio oedi'r broses osod a golygu bod angen talu ffi gynllunio. Mae'n bosibl y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn gofyn am arolwg acwstig manylach hefyd i gadarnhau effaith sŵn yn gywir, gan arwain at gost ychwanegol.

2.19 Er y bydd yn briodol cyflwyno cais cynllunio mewn achosion pan na fodlonir y rheoliadau, mae'n amlwg o adolygiad Llywodraeth Cymru o bympiau gwres o'r aer a chysylltiad â'r diwydiant a'r cyhoedd mai'r rheol 3 metr yw'r agwedd fwyaf cyfyngol ar hawliau datblygu a ganiateir presennol yng Nghymru a'i bod yn gweithredu fel rhwystr rhag gosod.

2.20 Cyfrifir terfyn sŵn presennol yr MCS ar gyfer pympiau gwres o'r aer, sef 42 desibel (dB), trwy adio'r allbwn mwyaf a ganiateir o'r uned ei hun, sef 37dB ynghyd â chysonyn cefndir 40dB. Mae safon yr MCS yn caniatáu ar gyfer allbwn

acwstig 42dB o dan amodau gweithredu arferol a fesurir 1 metr oddi wrth ystafell gyfanheddol agosaf eiddo cyfagos.

2.21 Mae'r MCS yn bwriadu cadw'r terfyn sŵn presennol o 37 desibel (dB) ar gyfer pympiau gwres o'r aer ond dileu'r cyfeiriad at sŵn cefndir er mwyn symleiddio'r broses asesu. Nid yw hyn yn newid y terfyn sŵn y mae'n rhaid i bympiau gwres o'r aer gydymffurfio ag ef. Mae'r MCS hefyd yn ceisio cryfhau safonau trwy wella'r diffiniad o rwystr acwstig lle y gallai fod angen i lefelau sŵn gael eu lliniaru er mwyn i gynnig symud ymlaen.

2.22 O ganlyniad i waith yr MCS, a gwelliannau i dechnoleg pympiau gwres o'r aer sy'n arwain at unedau tawelach, **mae Llywodraeth Cymru yn cynnig dileu'r rheol 3 metr yn llwyr**. Mae'r ymagwedd hon yn gyson â diwygiadau sy'n cael eu rhoi ar waith yn Lloegr ar hyn o bryd.

2.23 Ni fyddai'r trothwy hawl datblygu a ganiateir yn mynnu bod pellter pwmp gwres o'r aer oddi wrth ffin eiddo yn cael ei ystyried mwyach. Yn lle hynny, byddai angen i'r pwmp gwres o'r aer gydymffurfio â'r terfynau acwstig a osodwyd gan yr MCS a'i fethodoleg ar gyfer mesur a lliniaru lefelau sŵn. Byddai hyn yn mesur yr effaith acwstig ar yr ystafelloedd cyfanheddol agosaf ac yn cynghori ar yr angen am unrhyw fesurau lliniaru dilynol pe byddai'r lefelau sŵn yn torri'r terfynau uchaf. Pe byddai terfynau sŵn yn cael eu torri a bod mesurau lliniaru'n annigonol neu ni ellir eu gweithredu, byddai angen cyflwyno cais cynllunio ar gyfer ystyriaeth fanylach.

2.24 Pan fydd methodoleg yr MCS yn mynnu bod rhwystr acwstig yn cael ei osod neu'n dibynnu ar rwystr acwstig presennol fel ffens neu wal, cynigir cyflwyno amod sy'n mynnu bod y rhwystr acwstig hwnnw'n cael ei gadw am gyn hired ag y bydd y pwmp gwres yn aros yn ei le.

**Cwestiwn 2**

A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r cyfyngiad sy'n mynnu bod pwmp gwres o'r aer yn cael ei osod 3 metr oddi wrth ffin yr eiddo?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

Cyfaint uned allanol pwmp gwres o’r aer

2.25 Ar hyn o bryd, mae hawliau datblygu a ganiateir yng Nghymru yn caniatáu i uned gywasgu allanol pwmp gwres o’r aer (gan gynnwys unrhyw orchudd/casin) fesur hyd at 1 metr ciwbig o ran cyfaint. Gall maint anweddydd a gwyntyll pwmp gwres o’r aer ddylanwadu ar y sŵn a allyrrir. Gall gwyntyllau mwy o faint ganiatáu cyflymder troelli arafach, gan helpu i leihau lefelau sŵn ar yr un pryd â chynnal neu gynyddu’r capasiti i gynhyrchu gwres. Gall unedau mwy o faint fod yn fwy effeithlon a gwresogi mannau ehangach yn fwy effeithiol. Roedd adolygiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sef ‘Adolygiad o Allyriadau Sŵn Pympiau Gwres o’r Aer, Canllawiau a Rheoliadau Datblygu a Ganiateir’, o blaid cynyddu maint unedau. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cadarnhau ers hynny ei bod yn bwriadu cynyddu maint uned a ganiateir o 0.6 i 1.5 metr ciwbig er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd a chefnogi buddion gweithredol posibl unedau mwy o faint.

2.26 Byddai cynyddu’r terfyn maint i 1.5 metr ciwbig yn cynnig mwy o hyblygrwydd i aelwydydd, gan olygu y gellir gosod unedau mwy o faint a mwy effeithlon i fodloni gofynion uwch rhai eiddo ar gyfer gwres a dŵr poeth. Byddai angen i unedau mwy o faint gydymffurfio â therfynau sŵn yr MCS o hyd. Byddai cynyddu maint unedau’n hyrwyddo cysondeb ledled Cymru a Lloegr, hefyd.

**Cwestiwn 3**

A ydych chi’n cytuno y dylai cyfaint allanol presennol pwmp gwres o’r aer gael ei gynyddu o 1 metr ciwbig i 1.5 metr ciwbig?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

Nifer y pympiau gwres o’r aer a ganiateir ar neu o fewn cwrtil tŷ annedd

2.27 Ar hyn o bryd, mae hawliau datblygu a ganiateir yn caniatáu un pwmp gwres o’r aer ar neu o fewn cwrtil tŷ annedd. Rydym yn ceisio safbwyntiau ar ganiatáu hyd at ddau bwmp gwres o’r aer ar neu o fewn cwrtil annedd pan fo’r annedd honno **ar wahân**. Byddai hyn yn cynnig buddion posibl i anheddau mwy o faint a allai fod â gofynion uwch ar gyfer gwres a lle y ceir mwy o le rhwng eiddo.

2.28 Mae’r MCS yn gweithio ar greu dull o asesu allyriadau sŵn yn effeithiol o bympiau gwres niferus a osodwyd ar yr un eiddo. Byddai unrhyw gynnig i ganiatáu dau bwmp gwres o’r aer ar annedd ar wahân yn ddarostyngedig i weithredu methodoleg yr MCS yn llwyddiannus. Yn ogystal, disgwylir i’r terfyn sŵn 37dB ar gyfer uned pwmp gwres o’r aer unigol fod yn gymwys i osod dwy uned.

**Cwestiwn 4**

A ydych chi’n cytuno y dylai’r cyfyngiad presennol ar un pwmp gwres o’r aer ar neu o fewn cwrtil tŷ annedd gael ei gynyddu i uchafswm o ddau pan fo’r tŷ annedd yn eiddo ar wahân?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

Pympiau Gwres o’r Aer ar neu o fewn cwrtil bloc o fflatiau annibynnol

2.29 Ar hyn o bryd, nid yw hawliau datblygu a ganiateir yng Nghymru yn caniatáu pympiau gwres o’r aer ar neu o fewn cwrtil bloc o fflatiau. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio eich safbwyntiau ynglŷn â ph’un a ddylid caniatáu pympiau gwres o’r aer (un neu fwy) ar neu o fewn cwrtil bloc o fflatiau. Mae nifer o faterion i’w hystyried wrth feddwl am ganiatáu gosod pympiau gwres o’r aer ar flociau o fflatiau, gan gynnwys lefelau sŵn, gofynion lle, ac amwynder gweledol.

2.30 Er y gall pympiau gwres o’r aer gael eu dylunio’n rhan o adeiladwaith fflatiau newydd neu o fewn eu cwrtil, fe allai ôl-osod fflatiau presennol arwain at anawsterau ymarferol. Fe allai lleoli pympiau gwres o’r aer ar waliau allanol bloc o fflatiau arwain at effeithiau sŵn cronnol ar breswylwyr, neu dorri terfynau sŵn ar ôl gosod nifer benodol o bympiau gwres o’r aer. Yn yr achos olaf, mae’n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer gosodiadau ychwanegol. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu barn ymgyngoreion ynglŷn â’r mater.

**Cwestiwn 5**

A ydych chi'n credu y dylai hawliau datblygu a ganiateir ganiatáu gosod pympiau gwres o'r aer ar neu o fewn cwrtil bloc o fflatiau annibynnol?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

Pympiau Gwres o'r Aer a osodir ar wal sy'n wynebu priffordd

2.31 Nid yw'r hawl datblygu a ganiateir bresennol yn caniatáu pwmp gwres o'r aer ar dŷ annedd ar neu o fewn cwrtil tŷ annedd (gan gynnwys adeilad o fewn y cwrtil hwnnw) pan fydd wedi'i leoli ar wal neu do sy'n wynebu priffordd. Mae'r cyfyngiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfyngu ar effaith bosibl pwmp gwres o'r aer ar amwynder gweledol a chymeriad ardal. Er bod y cyfyngiad ar leoli pwmp gwres o'r aer ar do sy'n wynebu priffordd yn parhau i gael ei gefnogi ym mhob achos, ystyrir bod y cyfyngiad ar osod ar wal sy'n wynebu priffordd ym mhob achos yn rhy gyfyngol. Yn Lloegr, ar hyn o bryd, mae hawliau datblygu a ganiateir yn caniatáu gosod pwmp gwres o'r aer ar eiddo sy'n wynebu priffordd lle nad yw wedi'i leoli'n uwch na'r llawr gwaelod.

2.32 Byddai'n ofynnol i unrhyw osodiad sy'n elwa o'r cynnig hwn gael ei leoli'n gyfan gwbl o fewn cwrtil yr eiddo. Ni fyddai'r cynnig hwn yn caniatáu gosodiadau ar waliau gerllaw priffordd lle y byddai'r gosodiad yn rhwystro priffordd mewn unrhyw ffordd ac yn drosedd o dan y Ddeddf Priffyrdd. Os derbynnir y newid hwn, cynigir na fyddai gosodiadau ar wal sy'n wynebu priffordd yn cael eu caniatáu o fewn Ardal Gadwraeth, ar adeilad rhestredig nac ar heneb gofrestredig. Byddai gosodiadau mewn Ardal Gadwraeth yn dderbyniol lle nad ydynt yn wynebu priffordd.

**Cwestiwn 6**

A ydych chi'n cytuno y dylid caniatáu pympiau gwres o'r aer ar wal sy'n wynebu priffordd (lle nad yw'r gosodiad o fewn Ardal Gadwraeth, ar adeilad rhestredig nac ar heneb gofrestredig)?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Os ydych, a ydych chi'n credu y byddai hyd at ddau bwmp gwres o'r aer ar wal sy'n wynebu priffordd yn dderbyniol?

Rhowch eich rhesymau

Lleoliad Pwmp Gwres o'r Aer

2.33 Mae hawliau datblygu a ganiateir presennol yn cyfyngu ar ble neu sut y gellir lleoli pwmp gwres o'r aer ar dŷ annedd neu o fewn cwrtil tŷ annedd. Yn ogystal â'r cynigion sy'n ymwneud â'r rheol 3 metr a gosodiadau ar wal sy'n wynebu priffordd, y trafodir y ddau uchod, mae Dosbarth G Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 hefyd yn datgan na chaniateir pwmp gwres o'r aer lle y byddai'n:

- cael ei osod ar do ar oleddf;
- cael ei osod ar do gwastad lle y byddai wedi'i leoli o fewn metr o ymyl allanol y to hwnnw;
- cael ei osod ar annedd neu gwrtil annedd a bod tyrbin gwynt annibynnol eisoes wedi'i osod o fewn cwrtil y tŷ annedd
- cael ei osod o fewn cwrtil y tŷ annedd os yw'r tŷ annedd yn adeilad rhestredig;
- cael ei osod ar safle a ddynodwyd yn heneb gofrestredig;
- cael ei osod ar do sy'n wynebu priffordd.

2.34 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried dau ddiwygiad arall i'r rhestr hon. Yn gyntaf, dileu'r cyfyngiad ar osod pwmp gwres o'r aer lle mae tyrbin gwynt wedi'i leoli yng nghwrtil yr annedd ac, yn ail, cyflwyno cyfyngiad ar osod pwmp gwres o'r aer mewn Ardal Gadwraeth lle mae'n wynebu priffordd (gweler paragraffau 2.31 a 2.32 uchod a Chwestiwn 8 isod).

**Cwestiwn 7**

A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r cyfyngiad ar beidio â chaniatáu gosod pwmp gwres o'r aer lle mae tyrbin gwynt wedi'i leoli yng nghwrtil annedd?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 8**

A ydych chi'n cytuno y dylai'r cyfyngiadau a restrir ym mharagraff 2.33 uchod (ac o ran paragraffau 2.31-2.32) gynnwys cyfeiriad at gyfyngu ar osodiadau ar wal (neu do) tŷ annedd neu o fewn cwrtil tŷ annedd (gan gynnwys ar adeilad o fewn y cwrtil hwnnw) sy'n wynebu priffordd mewn Ardal Gadwraeth?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 9**

A ydych chi'n cytuno y dylai'r cyfyngiadau eraill a restrir ym mharagraff 2.33 uchod aros heb eu newid?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 10**

A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â phympiau gwres o'r aer nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi?

## 3. GWEFRU CERBYDAU TRYDAN ODDI AR Y STRYD

### Cefndir

3.1 Mae angen i nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan ledled Cymru gynyddu i gefnogi’r twf disgwyliedig mewn defnyddio cerbydau trydan, ac i gyd-fynd â thargedau Cymru Sero Net a gwaharddiad arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar werthu cerbydau petrol a diesel newydd erbyn 2030/35. Mae angen seilwaith gwefru dibynadwy a chynhwysfawr i gefnogi’r newid hwn. Mae mwyafrif y cerbydau trydan yn cael eu gwefru gartref, a disgwyliwn i hyn barhau. Wrth i nifer y cerbydau trydan ar y ffyrdd gynyddu, mae’n rhaid i’r llywodraeth sicrhau bod fframweithiau deddfwriaethol yn cefnogi gosod pwynt gwefru mewn modd amserol a fforddiadwy.

3.2 Er mwyn helpu i gefnogi’r amcanion hyn, mae angen diwygio’r hawliau datblygu a ganiateir presennol ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn **ardaloedd a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd** i roi mwy o hyblygrwydd ynglŷn â lleoli gwefrwyr wal a phileri gwefru a, lle bo’n briodol, caniatáu gosod unedau gwefru capasiti uwch. Nid yw’r cynigion hyn yn ymwneud â pharcio ar y stryd, y mae deddfwriaeth wahanol yn berthnasol iddo.

3.3 Amlinellir hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan mewn ardaloedd a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd yn Nosbarth D ac E Rhan 2 Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Gellir gweld yr hawliau datblygu a ganiateir presennol yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2019.

### Newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan

Pwynt gwefru wedi’i osod ar wal

3.4 Nid ydym yn cynnig diwygio maint pwynt gwefru wedi’i osod ar wal. Fodd bynnag, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i unigolion a sefydliadau sy’n dymuno gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar wal, rydym yn cynnig dileu’r gofyniad sy’n atal lleoli pwynt gwefru sy’n wynebu priffordd ac o fewn 2 fetr o briffordd fel y gellir ei osod yn unrhyw le o fewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd (parcio oddi ar y stryd a berchnogir yn breifat neu’n gyhoeddus).

3.5 Dylid nodi nad yw'r cynnig hwn, mewn unrhyw ffordd, yn cefnogi ymestyn neu lusgo ceblau o ardal parcio oddi ar y stryd gyfreithlon ar draws priffordd gyhoeddus sy'n cynnwys priffordd i gerddwyr (neu balmant). Mae'r cynnig yn cefnogi gwefru cerbydau o fewn yr ardal parcio oddi ar y stryd gyfreithlon yn unig. Fe allai rhwystro priffordd gyhoeddus gan geblau trydanol neu eitemau eraill cysylltiedig fod yn drosedd o dan y Ddeddf Priffyrdd 1980 ac fe allai fod yn agored i ddirwy neu erlyniad.

3.6 Mae'r newid hwn yn cyd-fynd â chynigion sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr a bydd yn darparu ymagwedd gyson at osod pwyntiau trydan ar waliau ledled Cymru a Lloegr.

3.7 Nid ydym yn cynnig newid y cyfyngiad a amlinellir yn Nosbarth D y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir sy'n cyfyngu ar leoli gwefrwr wedi'i osod ar wal o fewn safle a ddynodwyd yn heneb gofrestredig.

**Cwestiwn 11**

A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r cyfyngiad sy'n datgan na all pwyntiau trydan wedi'u gosod ar wal ar gyfer gwefru cerbydau trydan wynebu priffordd a bod o fewn 2 fetr o briffordd?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

<u>Pileri Gwefru Cerbydau Trydan</u>

3.8 Ar hyn o bryd, mae Dosbarth E yn caniatáu gosod, newid neu amnewid piler gwefru gyda phwynt trydan wedi'i osod arno o fewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd. Ni chaniateir datblygiad lle mae piler gwefru'n fwy nag 1.6 metr o uchder; o fewn 2 fetr o briffordd; o fewn safle a ddynodwyd yn heneb gofrestredig; neu'n arwain at fwy nag un piler gwefru fesul lle parcio.

3.9 Nid yw hawliau datblygu a ganiateir presennol yn gwahaniaethu rhwng lleoli pileri gwefru o fewn cwrtil tai annedd, fflatiau, neu ardaloedd eraill. Bydd y newidiadau arfaethedig i hawliau datblygu a ganiateir yn gwahaniaethu rhwng yr

ardaloedd hyn i ganiatáu ar gyfer amrywio uchder pileri gwefru yn seiliedig ar eu lleoliad.

Uchder pileri gwefru trydan a leolir o fewn cwrtil annedd ddomestig neu floc o fflatiau

3.10 Pan fydd piler gwefru wedi'i leoli mewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd o fewn cwrtil annedd ddomestig neu adeilad sy'n cynnwys un neu fwy o fflatiau, bydd uchder mwyaf y piler gwefru yn aros yr un fath, sef 1.6 metr.

3.11 Mae paragraff 3.5 uchod sy'n datgan y gallai rhwystro priffordd gyhoeddus fod yn drosedd o dan y Ddeddf Priffyrdd yn berthnasol hefyd i bileri gwefru sydd wedi'u lleoli o fewn cwrtil annedd ddomestig neu floc o fflatiau.

**Cwestiwn 12**

A ydych chi'n cytuno y dylai'r uchder a ganiateir ar gyfer piler gwefru cerbyd trydan wedi'i leoli o fewn cwrtil tŷ annedd neu floc o fflatiau aros yn 1.6 metr?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

Uchder pileri gwefru nad ydynt wedi'u lleoli o fewn cwrtil annedd ddomestig neu floc o fflatiau

3.12 Rydym yn cynnig galluogi gosod pileri gwefru â chapasiti uwch mewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd lle **nad** ydynt wedi'u lleoli o fewn cwrtil annedd ddomestig neu adeilad sy'n cynnwys un neu fwy o fflatiau. Diben y cynnydd hwn yw caniatáu, lle y bo'n ofynnol, pileri gwefru sy'n gallu ymdopi â chyflenwad pŵer uwch, modiwlau pŵer ar wahân a batri storio mewnol ar gyfer gwefrwyr pŵer uchel. I gyflawni hyn, rydym yn cynnig cynyddu uchder unedau gwefru o 1.6 metr i hyd at 2.7 metr. Ni fyddai mwy nag un piler gwefru fesul lle parcio yn cael eu caniatâi.

3.13 Mae paragraff 3.5 uchod sy'n datgan y gallai rhwystro priffordd gyhoeddus fod yn drosedd o dan y Ddeddf Priffyrdd 1980 yn berthnasol hefyd i bileri gwefru

cerbydau trydan sydd wedi'u lleoli o fewn cwrtil annedd ddomestig neu floc o fflatiau.

3.14 Mae'r newid hwn yn cyd-fynd â chynigion sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr a bydd yn darparu ymagwedd gyson at osod pileri gwefru trydan ledled Cymru a Lloegr.

**Cwestiwn 13**

A ydych chi'n cytuno y dylai'r uchder a ganiateir ar gyfer piler gwefru cerbyd trydan wedi'i leoli mewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd, ond nad yw o fewn cwrtil tŷ annedd, neu floc o fflatiau, gael ei gynyddu o 1.6 metr i 2.7 metr?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

3.15 Fe allai cynyddu uchder pileri gwefru i 2.7 metr arwain at ystyriaethau gweledol neu amwynder eraill yn gysylltiedig â golau a sŵn neu ddefnydd yn y nos, a allai gael effaith os ydynt wedi'u lleoli'n agos i eiddo preswyl. Felly, gofynnir i ymgyngoreion am eu safbwyntiau ynglŷn â'r angen i bennu llain glustogi leiaf rhwng pileri gwefru 2.7 metr ac eiddo preswyl er mwyn lliniaru effeithiau posibl.

**Cwestiwn 14**

A ydych chi'n credu y dylai fod llain glustogi leiaf rhwng piler gwefru cerbyd trydan 2.7 metr ac eiddo preswyl (gan gynnwys fflatiau)?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

Lleoliad pileri gwefru cerbydau trydan

3.16 Er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i unigolion a sefydliadau sy'n dymuno gosod piler gwefru trydan, rydym yn cynnig dileu'r gofyniad sy'n atal lleoli piler gwefru sy'n wynebu priffordd ac o fewn dau fetr o briffordd fel y gellir ei osod yn unrhyw le o fewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd. Mae hyn yn berthnasol i biler gwefru wedi'i leoli o fewn cwrtil annedd ddomestig neu floc o fflatiau, ac i biler gwefru wedi'i leoli mewn ardal annomestig. Gweler paragraff 3.5 uchod hefyd.

3.17 Mae'r newid hwn yn cyd-fynd â chynigion sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr a bydd yn darparu ymagwedd gyson at osod pileri gwefru trydan ledled Cymru a Lloegr.

| |
|---|
| **Cwestiwn 15**<br><br>A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r cyfyngiad sy'n atal gosod piler gwefru trydan sy'n wynebu priffordd ac o fewn dau fetr o briffordd?<br><br>Ydw<br><br>Nac ydw<br><br>Ddim yn gwybod<br><br>Rhowch eich rhesymau |

Gorchudd cyfarpar (neu gypyrddau storio) i gynnal pileri gwefru annomestig ar gyfer ailwefru cerbydau trydan o fewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd

3.18 Rydym yn cynnig y dylai hawliau datblygu a ganiateir ganiatáu ar gyfer gosod uned i orchuddio cyfarpar neu gypyrddau storio i helpu i weithredu pileri gwefru cerbydau mwy o faint a mwy pwerus ar gyfer cerbydau trydan. Rydym yn cynnig y byddai'r hawl datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau canlynol:

- yn berthnasol yn unig mewn meysydd parcio annomestig, oddi ar y stryd ar lefel y ddaear;
- caniatáu ar gyfer gosod dim mwy nag un uned fesul maes parcio;
- caniatáu unedau hyd at uchafswm o 29 metr ciwbig o faint;
- caniatáu unedau hyd at uchafswm o dri metr o uchder;

- ni fyddai unedau'n cael eu caniatáu o fewn pum metr o'r briffordd neu o fewn 10 metr o gwrtil datblygiad preswyl.

3.19 Mae'r newid hwn yn cyd-fynd â chynigion sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr a bydd yn darparu ymagwedd gyson at osod gorchuddion cyfarpar neu gypyrddau storio sy'n angenrheidiol i gynnal pileri gwefru annomestig o fewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd ledled Cymru a Lloegr.

**Cwestiwn 16**

A ydych chi'n cytuno y dylai hawliau datblygu a ganiateir ganiatáu ar gyfer gosod uned gorchuddio cyfarpar neu gypyrddau storio sy'n angenrheidiol i gynnal pileri gwefru annomestig ar gyfer ailwefru cerbydau trydan?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 17**

A ydych chi'n cytuno â'r cyfyngiadau arfaethedig eraill ar gyfer unedau gorchuddio cyfarpar neu gypyrddau storio, gan gynnwys y cyfyngiad o hyd at 29 metr ciwbig o faint a dim mwy nag un uned fesul maes parcio?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 18**

A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â gwefrwyr cerbydau trydan wedi'u lleoli mewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y

| |
|---|
| stryd nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi? |

## 4. YMGYNGHORIAD 2021: DIWYGIADAU I ORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGU CYFFREDINOL A GANIATEIR) 1995

4.1 Rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Chwefror 2022, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gyfres o gynigion ar gyfer diwygiadau i hawliau datblygu a ganiateir, yr oedd sawl un ohonynt yn ceisio gwneud y newidiadau dros dro a gyflwynwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Rhif 2) (Cymru) 2021 yn barhaol.

4.2 Ar ôl dadansoddi'r ymatebion ymgynghori, canfuwyd bod cefnogaeth gyffredinol i'r holl gynigion, heblaw am y cynigion ar gyfer newidiadau i hyd defnyddio tir dros dro at ddibenion gwersylla. Atodir dadansoddiad ystadegol o'r ymatebion ymgynghori yn **Atodiad A**.

4.3 O ystyried y gefnogaeth gyffredinol i'r cynigion hyn, heblaw am ymestyn y cyfnodau ar gyfer defnyddio tir dros dro a'r newidiadau arfaethedig i Ddosbarth D ac E (gwefrwyr cerbydau trydan) a ddisodlwyd yn rhannol gan yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn symud ymlaen i gyflwyno'r newidiadau hynny i Orchymyn 1995 fel y mae rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn caniatáu. O ran Dosbarth D, D1(a), nid ydym yn bwriadu dileu'r cyfyngiad ar raddfa pwynt trydan cerbyd trydan wedi'i osod ar wal (0.2 fetr ciwbig ar hyn o bryd). O ran Dosbarth E (pileri gwefru cerbydau trydan), rydym yn bwriadu cynyddu uchder pileri gwefru annomestig o 1.6m i 2.7m yn lle'r 2.5m a awgrymwyd yn flaenorol (gweler paragraff 3.12 uchod).

4.4 Dyma'r cynigion sy'n cael eu symud ymlaen:

- Galluogi newidiadau defnydd dros dro mewn canol trefi o ddosbarthiadau A1, A2 neu A3 i unrhyw un o'r dosbarthiadau A eraill, neu i ddosbarth B1, D1 neu D2 (oni bai bod y defnydd newydd yn dod o fewn dosbarth B1(c), nad yw'r adeilad cyfan o fewn canol tref, neu lle mae'r newid defnydd ar gyfer gwerthu bwyd poeth i'w fwyta oddi ar y safle);
- Defnyddio'r briffordd gerllaw safle sy'n dod o fewn dosbarth A3, at ddiben bwyta bwyd neu yfed diod a gyflenwyd o'r safle hwnnw, gan gynnwys darparu byrddau, seddau, cownteri, ambarelau stondinau, rhwystrau neu wresogyddion, rhwng 8am a 10pm;
- Codi cysgodlenni ôl-dynadwy (i'w hôl-dynnu rhwng 10pm ac 8am) dros flaen safleoedd sy'n dod o fewn dosbarth A3, ar dir Erthygl 1(5), o fewn Safle Treftadaeth y Byd, neu gwrtil adeilad rhestredig;

- Newidiadau i Ddosbarth F Rhan 1 Atodlen 2 Gorchymyn 1995, sy’n mynnu bod unrhyw arwynebau caled newydd neu gyfnewid o fewn cwrtil tŷ annedd yn athraidd, er mwyn lleihau perygl llifogydd lleol;
- Newidiadau i Ddosbarth D ac E Rhan 2 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 (gwefrwyr cerbydau trydan) sy’n cynnig amod yn cyfyngu ar hysbysebu nad yw’n gysylltiedig â darparwr neu swyddogaeth y seilwaith cerbydau trydan, newidiadau i Ran 12 Gorchymyn 1995 sy’n galluogi trydydd partïon i ymgymryd â datblygiad cerbydau trydan ar ran Awdurdodau Lleol, a newidiadau i Ran 13 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 sy’n galluogi Awdurdodau Priffyrdd i bennu gosod seilwaith cerbydau trydan, a newidiadau i Ran 17 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 i alluogi ymgymerwyr statudol i wneud yr un peth; ac
- Ailgyflwyno Rhan 39 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 i alluogi codi cysgodfannau dros dro ar gyfer adar, er mwyn ymateb i frigiad o achosion ffliw adar neu glefydau trosglwyddadwy eraill tebyg tra bod yr achosion hynny’n parhau ac am hyd at 4 mis wedi hynny.

## 5. NEWID DEFNYDD TIR DROS DRO AR GYFER GWERSYLLA

5.1 Mae Gorchymyn 1995 yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio tir dros dro am hyd at 28 niwrnod y flwyddyn. Rhoddwyd caniatâd dros dro am 28 niwrnod ychwanegol yn ystod y pandemig COVID er mwyn cefnogi adferiad economaidd a bodloni’r galw am ddefnyddiau dros dro, gan gynnwys twristiaeth ddomestig yng ngoleuni cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol. Galluogodd hyn gyfanswm o hyd at 56 diwrnod o wersylla heb orfod gwneud cais am ganiatâd cynllunio.


5.2 Roedd y newidiadau dros dro i Orchymyn 1995 a wnaed gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2021 yn berthnasol i bob defnydd tir dros dro, nid dim ond gwersylla a charafanio.

5.3 Gwnaed newidiadau tebyg yn Lloegr. Ar ôl diwedd y pandemig, ni chadwyd y ddarpariaeth 28 niwrnod ychwanegol. Fodd bynnag, yn Lloegr, crëwyd dosbarth datblygu a ganiateir newydd yn benodol ar gyfer safleoedd gwersylla hamdden a oedd yn rhoi caniatâd ar gyfer newid defnydd dros dro am hyd at 60 niwrnod y flwyddyn.

5.4 Rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Chwefror 2022, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i wneud y ddarpariaeth 28 niwrnod ychwanegol yn barhaol. Gofynnodd cwestiwn 1 dogfen ymgynghori 2021, “A ddylai’r diwrnodau ychwanegol a roddwyd gan Ddosbarth A Rhan 4A gael eu cadw’n barhaol, gan ganiatáu defnyddiau dros dro am hyd at 56 diwrnod (28 niwrnod ar gyfer

defnyddiau penodedig) mewn blwyddyn galendr?”. Roedd yr ymatebion a gafwyd fel a ganlyn:

Ie – 71
Na – 29
Arall – 15
Heb ateb – 7




5.5 Er bod yr ymgyngoreion yn cefnogi’r cynigion, yn gyffredinol, mynegwyd pryderon yn ystod yr ymgynghoriad ynglŷn â’r aflonyddu a achosir gan fyw nesaf at safle gwersylla dros dro. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn rhan o’r ymatebion ymgynghori yn cynnwys:

a) Effaith sylweddol ar drafnidiaeth yn deillio o dagfeydd ar rwydweithiau gwledig o ganlyniad i ddefnydd dwys ar safleoedd penodol;
b) Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn hwyr iawn y nos ger rhai lleoliadau preswyl, gan gynnwys yfed direolaeth a cherddoriaeth uchel, a disgyblaeth safle gwersylla wael, yn enwedig yn ymwneud ag ymolchi;
c) Rhai safleoedd gwersylla â chyfarpar annigonol, ar raddfa annigonol neu a reolwyd yn wael; a
ch) Cafodd rhai awdurdodau cynllunio lleol drafferth nodi digon o adnoddau i reoleiddio cydymffurfedd â’r cyfnodau estynedig.

5.6 Cododd y galw am fwy o fynediad at gyfleoedd gwersylla yn ystod adeg ymgynghoriad 2021, a oedd yn adlewyrchu’r cyfyngiadau ar dwristiaeth ac opsiynau gwyliau a ddeilliodd o’r pandemig COVID. Nid yw’r cyfyngiadau hyn ar

deithio a thwristiaeth yn berthnasol, mwyach. Er hynny, mae sylwadau gan y sectorau twristiaeth ac amaethyddiaeth wedi amlygu'r diddordeb parhaus mewn gweithredu'r newidiadau, yn enwedig gan fod yr amser ychwanegol ar gyfer safleoedd gwersylla yn Lloegr wedi cael ei gadw.

5.7 Gan fod y cyfnodau gweithredu estynedig wedi parhau yn Lloegr, ond nid yng Nghymru, mae busnesau yng Nghymru yn honni eu bod yn gweithredu dan anfantais gystadleuol. Gan fod amgylchiadau wedi newid ers y pandemig COVID, mae'n bosibl y gallai safbwyntiau ar y mater fod wedi newid ers ymgynghoriad 2021. Felly, rydym yn ailymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷn ag egwyddor diwygio Gorchymyn 1995 o ran safleoedd gwersylla hamdden.

5.8 Ar ôl ystyried adborth o ymgynghoriad 2021, rydym yn cynnig dosbarth penodol newydd o ddatblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla hamdden o fewn Rhan 4 Atodlen 2 Gorchymyn 1995. O ganlyniad, byddai gwersylla'n cael ei eithrio o Ddosbarth B yn Rhan 4, heblaw pan fyddai mewn cysylltiad â gŵyl.

5.9 Byddai'r dosbarth newydd ar gyfer safleoedd gwersylla hamdden yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ac amodau i warchod amwynder meddianwyr anheddau cyfagos rhag effeithiau gwrthgymdeithasol sy'n deillio o weithgareddau gwersylla, yn enwedig sŵn o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac arogleuon o losgi, coginio, neu dai bach dros dro a reolir yn aneffeithlon.

5.10 Bwriadwn gyflwyno cyfyngiad a fyddai'n atal newid defnydd tir lle y byddai o fewn 100 metr o "adeilad a warchodir", er mwyn gwarchod amwynder perchnogion neu feddianwyr presennol. Byddai "adeilad a warchodir" yn cael ei ddiffinio fel annedd nad yw'n cael ei meddiannu gan dirfeddiannwr neu weithredwr y safle gwersylla hamdden dros dro. Dylai ymgyngoreion nodi y bydd cyflwyno'r cymal hwn yn golygu y bydd tir o fewn 100 metr o "adeilad a warchodir" yn colli'r 28 niwrnod presennol o hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer defnyddiau gwersylla dros dro.

5.11 Er yr ystyriwn y bydd y "llain glustogi" 100 metr yn mynd i'r afael â'r pryderon amwynder ar y safle sy'n gysylltiedig â safleoedd gwersylla dros dro, mae'n fwy anodd mynd i'r afael â phryderon ynglŷn ag effeithiau traffig ar lefel genedlaethol. Nid yw'r effeithiau ar ddiogelwch ar y priffyrdd sy'n deillio o fynediad at safleoedd dros dro wedi newid o'r defnydd 28 niwrnod presennol o'r tir. Ystyriwn hefyd, ym mwyafrif helaeth y sefyllfaoedd, fod natur dros dro'r defnydd yn golygu er y bydd traffig yn cael effeithiau niweidiol ar rwydweithiau lleol o ran tagfeydd ac effeithiau ar amwynder anheddau ymyl ffordd, bydd y rhain ar lefel dderbyniol yn gyffredinol. Felly, bwriadwn hefyd fynnu bod safleoedd gwersylla'n ddarostyngedig i weithdrefn hysbysu o flaen llaw gydag Awdurdodau Cynllunio

Lleol, gan sicrhau bod materion mynediad i gerbydau a rheoli dŵr gwastraff yn cael eu cytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

5.12 Byddem yn disgwyl i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddefnyddio cyfarwyddiadau Erthygl 4 mewn ffordd strategol. Byddai cyfarwyddiadau'n cael eu gwneud cyn i gynigion ar gyfer safle gwersylla dros dro gael eu cyflwyno, gan ddefnyddio eu pwerau mewn ffordd gyfyngedig yn unig yn yr ardaloedd hynny lle mae'r rhwydwaith ffyrdd yn gyfyng iawn o ran lled ac felly na all ymdopi'n foddhaol â chynnydd dros dro mewn traffig.

5.13 Mae rhai ardaloedd o dir nad ydynt yn addas ar gyfer gwersylla hamdden o ganlyniad i'r effeithiau cynllunio annerbyniol a fyddai'n cael eu hachosi. Felly, bwriadwn eithrio defnyddio tir:

a) ar safle heneb gofrestredig;
b) mewn ardal perygl diogelwch;
c) mewn ardal storio ffrwydron milwrol;
ch) ar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig;
d) ar safle adeilad rhestredig;
dd) ar gyfer lleoli unrhyw garafán heblaw am garafán a ddefnyddir fel cerbyd modur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo;
e) o fewn Parthau Llifogydd 2 neu 3.

5.14 Felly, cynigiwn:

- gyflwyno Dosbarth newydd i Ran 4 Atodlen 2 Gorchymyn 1995, yn benodol ar gyfer defnydd fel safle gwersylla hamdden am **60** niwrnod ar y mwyaf mewn unrhyw flwyddyn galendr. Ni fyddai'r defnydd yn cael ei ganiatáu o fewn 100 metr o gwrtil annedd nad yw'n cael ei meddiannu gan y tirfeddiannwr neu weithredwr y safle;
- Mynnu bod safleoedd gwersylla'n ddarostyngedig i weithdrefn hysbysu o flaen llaw i sicrhau trefniadau priodol ar gyfer mynediad a rheoli dŵr gwastraff o'r safle; ac
- Eithrio defnyddio tir o fewn y dynodiadau a amlinellir ym mharagraff 5.13 am resymau diogelwch ac i warchod asedau treftadaeth.

**Cwestiwn 19**

A ydych chi'n cytuno â'r dosbarth newydd arfaethedig o fewn Rhan 4 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 fel y'i hamlinellir uchod, sy'n caniatáu safleoedd gwersylla hamdden dros dro am hyd at 60 niwrnod mewn blwyddyn galendr?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 20A**

A ydych chi'n cytuno â'r cyfyngiad arfaethedig ar ddefnyddio tir dros dro ar gyfer gwersylla o fewn 100 metr o gwrtil "adeilad a warchodir"?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 20B**

A ydych chi'n cytuno â'r rhestr o fathau o dir sydd wedi'u heithrio o'r dosbarth newydd?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 21**

A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â safleoedd gwersylla dros dro nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi?

## 6. PEIRIANNAU GWERTHU GWRTHDRO

6.1 Mae Pennod 5 Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â lleihau a rheoli gwastraff, yn unol â'i strategaeth wastraff ehangach, sef "Tuag at Ddyfodol Diwastraff". Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at yr "hierarchaeth wastraff", a'r broses ddilyniannol o atal a lleihau gwastraff, ac annog ailddefnyddio ac ailgylchu.

6.2 Yn 2021, cynhaliodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon, ymgynghoriad ar y cyd ar gynigion i ddefnyddio hawliau datblygu a ganiateir i gefnogi ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau'n ddomestig trwy ddefnyddio systemau gwerthu gwrthdro. Cyhoeddwyd y dadansoddiad o'r ymgynghoriad yn 2023 a gellir ei weld yn https://assets.publishing.service.gov.uk/media/63c96864d3bf7f24b033500b/DRS_Government_response_Jan_2023.pdf.

6.3 Mae'r dadansoddiad o'r ymgynghoriad yn ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys y ffurf a'r deunyddiau sydd i'w hailgylchu, y trefniadau llywodraethu sy'n ofynnol ar gyfer cynllun o'r fath a'r targedau rheoli gwastraff perthnasol. Roedd yr ymatebion ymgynghori a oedd yn cyfeirio at gynnal cynllun o'r fath yn arbennig o berthnasol i'r system gynllunio. Mae'r crynodeb o ymatebion ymgynghoriad 2023 yn datgan:

*"Mae llwyddiant Cynllun Dychwelyd Ernes yn dibynnu ar rwyddineb mynediad at bwyntiau dychwelyd i ddefnyddwyr. Os oes rhaid i fanwerthwyr wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer peiriannau gwerthu gwrthdro y tu allan i'w safle, fe allai hynny arwain at oedi cyn gweithredu'r cynllun a chyflwyno cost ychwanegol i fanwerthwyr. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gryf o blaid creu hawl datblygu a ganiateir newydd ar gyfer peiriannau gwerthu gwrthdro i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu'n ddidrafferth.*

*Gan fod cynllunio'n fater datganoledig, bydd y llywodraeth yn annog hawl datblygu a ganiateir ychwanegol ar gyfer peiriannau gwerthu gwrthdro ym mhob gwlad. Dylai hawliau datblygu a ganiateir gael eu cyflwyno ym mhob gwlad, yn ddarostyngedig i ystyriaeth gan Weinidogion perthnasol ac yn cynnwys amodau*

*a chyfyngiadau penodol i wledydd i reoli effeithiau lleol a gwarchod amwynder lleol.”*

6.4 Mae Rhan 42 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 yn cynnwys yr hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer siopau neu sefydliad gwasanaethau ariannol neu broffesiynol yng Nghymru.

6.5 Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr egwyddorion a amlygwyd yn yr adroddiad ymgynghori ar y cyd o ran hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer cynlluniau o’r fath. Er mwyn hwyluso’r broses o weithredu ein strategaeth ehangach ar gyfer defnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes i gyrraedd ein targedau gwastraff, ailgylchu ac ailddefnyddio, rydym yn ystyried cyflwyno dosbarth newydd i Ran 42 Atodlen 2, yn seiliedig ar y meini prawf yr ymgynghorodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig arnynt yn 2021 a’r rhai a fabwysiadwyd gan Weinidogion yr Alban yn 2020, ond nid yn union debyg iddynt.

6.6 Yng ngoleuni’r ymatebion i ymgynghoriad 2021, rydym yn ystyried y cyfyngiadau canlynol ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer datblygiad o’r fath:

- Ni ddylai unrhyw ran o’r datblygiad fod yn fwy na 3.5 metr o uchder (lleihawyd hyn o 4 yn ymgynghoriad 2021, fel y’i mabwysiadwyd gan Weinidogion yr Alban).
- Ni ddylai unrhyw ran o’r datblygiad ymwthio allan y tu hwnt i wal sy’n wynebu’r briffordd a bod o fewn 5 metr o’r briffordd honno.
- Pan fydd wedi’i osod mewn wal siop, ni chaiff unrhyw ran o’r datblygiad ymwthio allan y tu hwnt i 2 fetr o arwyneb allanol y wal bresennol honno.
- Ni fydd unrhyw ran o’r datblygiad yn cael ei hadeiladu o fewn 15 metr o gwrtil adeilad a ddefnyddir at ddibenion preswyl.
- Ni chaiff ôl troed cyfan yr holl beiriannau gwerthu gwrthdro o fewn y cwrtil (heblaw am y rhai hynny o fewn yr adeilad) fod yn fwy na 40 metr sgwâr (lleihawyd hyn o 80 metr, fel yr ymgynghorwyd arno yn 2021 ac a fabwysiadwyd gan Weinidogion yr Alban).
- Ni chaniateir datblygiad o fewn tir a amlygwyd yn erthygl 1(5) neu Safle Treftadaeth y Byd, nac o fewn cwrtil adeilad rhestredig neu heneb gofrestredig.

6.7 Ystyriwn y gallai gosod adeiladau allan bach ar gyfer peiriannau gwerthu gwrthdro mewn meysydd parcio archfarchnadoedd elwa o gydsyniad tybiedig hefyd o dan y diwygiad hwn i Orchymyn 1995. Byddai hyn yn galluogi’r siopau manwerthu hynny y mae’n rhaid iddynt ddarparu cynlluniau gwerthu gwrthdro weithredu cynlluniau o’r fath mewn amgylchiadau lle na ellir gosod cyfleusterau o fewn adeiladau presennol. Felly, cynigiwn alluogi creu adeilad allan o dan ddosbarth newydd Rhan 42 Atodlen 2.

6.8 Amlygodd yr ymgynghoriad yn 2021 gyfyngiadau ar ddatblygu a ganiateir ar gyfer gosod peiriannau gwerthu gwrthdro, hyd at uchafswm o 80 metr sgwâr a hyd at uchafswm o 4 metr o uchder. Er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r effaith, mae 80 metr sgwâr yn cyfateb i 12 lle parcio, yn fras. Er y deallwn y byddai cyffredinedd rhwng systemau ledled y Deyrnas Unedig yn fuddiol i fanwerthwyr sy'n gyfrifol am ddarparu Cynllun Dychwelyd Ernes, ystyriwn fod creu adeilad allan o'r fath, heb fod angen ceisio caniatâd cynllunio, yn anghymesur â hawliau datblygu a ganiateir eraill, ac yn ormodol o ran yr effaith bosibl ar amwynder.

6.9 Mae sawl cwmni sy'n gweithredu'n rhyngwladol yn cynnig cynhyrchion peiriannau gwerthu gwrthdro sy'n defnyddio cynhwysydd morgludiant fel modiwl sylfaenol. Daw cynwysyddion morgludiant ar ffurf amrywiaeth o feintiau safonol, fel yr amlinellir yn y tabl isod.

| Hyd Allanol | Uchder Allanol | Lled Allanol | Arwynebedd mewn metrau sgwâr |
|---|---|---|---|
| 2.44m (8 troedfedd) | 2.26m (7 troedfedd 6 modfedd) | 2.26m (7 troedfedd) | 6 |
| 2.99m (10 troedfedd) | 2.59m (8 troedfedd 6 modfedd) | 2.44m (8 troedfedd) | 7 |
| 6.06m (20 troedfedd) | 2.60m (8 troedfedd 6 modfedd) | 2.44m (8 troedfedd) | 15 |
| 12.2m (40 troedfedd) | 2.60m (8 troedfedd 6 modfedd) | 2.44m (8 troedfedd) | 30 |

6.10 Mae rhai cynhyrchion presennol yn defnyddio cynwysyddion 20 troedfedd fel llinell sylfaen, sy'n rhychwantu arwynebedd o 15 metr sgwâr. Gan ddefnyddio'r dimensiynau hyn fel man cychwyn, byddai'r hawliau datblygu a ganiateir diwygiedig arfaethedig a amlinellir ym mharagraff 6.6 uchod yn galluogi manwerthwyr y mae'n ddyletswydd arnynt i ddarparu Cynllun Dychwelyd Ernes i adeiladu strwythur sy'n gallu cynnwys dau gynhwysydd 15 metr sgwâr, neu un cynhwysydd 30 metr sgwâr.

6.11 Byddai'r uchafswm uchder a'r arwynebedd ychwanegol arfaethedig hefyd yn galluogi datblygwyr i osod cysgodlen neu orchudd i warchod defnyddwyr rhag y tywydd tra'u bod yn defnyddio'r peiriant gwerthu gwrthdro, a darparu to ar gyfer y strwythur, lle bo'n briodol.

**Cwestiwn 22**

A ydych chi'n cytuno â'r dimensiynau diwygiedig ar gyfer datblygu a ganiateir ar gyfer adeiladau allan peiriant gwerthu gwrthdro, hyd at uchafswm o 40 metr sgwâr, a hyd at uchafswm o 3.5 metr o uchder?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

6.12 Nid yw'r diwygiad arfaethedig i Orchymyn 1995 yn nodi unrhyw gyfyngiadau ynglŷn â brandio neu hysbysebu ar gyfer unrhyw Gynllun Dychwelyd Ernes. Byddai arddangos hysbysebion yn rhan o ddatblygiad peiriant gwerthu gwrthdro yn parhau i gael ei reoli gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992.

**Cwestiwn 23**

A ydych chi'n cytuno na ddylai Cynllun Dychwelyd Ernes fod yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau penodol yn ymwneud â chydsyniad hysbysebu ac y dylai fod yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau ag sy'n bodoli ar gyfer datblygiadau eraill tebyg, fel peiriannau codi arian?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

6.13 Yn wahanol i'r hawliau datblygu a ganiateir a gynigir ar gyfer Lloegr ac sydd eisoes ar waith ar gyfer yr Alban, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu darparu cyfleuster ar gyfer ailgylchu ac ailddefnyddio gwydr cyfan mewn peiriannau gwerthu gwrthdro yng Nghymru. Mae hyn yn cyflwyno ffactorau ychwanegol.

6.14 Yn nodweddiadol, bydd peiriannau gwerthu gwrthdro yn gwasgu caniau cyn eu storio ar gyfer ailgylchu, ac nid yw plastigion yn creu llawer o sŵn tra byddant yn cael eu symud o amgylch system peiriant gwerthu gwrthdro. Fodd bynnag, bydd

poteli gwydr cyfan yn creu mwy o sŵn wrth gael eu gollwng a symud o amgylch nag ailgylchu plastigion neu fetelau.

6.15 Mae dyluniad sawl peiriant gwerthu gwrthdro masnachol yn cynnwys mecanwaith “gollwng meddal”, lle mae cynhwysydd gwydr yn cael ei ollwng uwchben daliedydd casglu o uchder digon isel i olygu nad oes llawer o berygl o’i ddifrodi. Er hynny, mae hyn yn creu sŵn nodedig sy’n debygol o arwain at effaith niweidiol ar amwynder, yn enwedig pan fydd llawer o eitemau’n cael eu hailgylchu.

6.16 Mae’r diwygiad arfaethedig i Orchymyn 1995 yn atal datblygiad lle byddai’n digwydd o fewn 15 metr o gwrtil adeilad a ddefnyddir at ddibenion preswyl. Mae’r pellter hwn eisoes ar waith yn yr Alban ac fe’i cynigir yn Lloegr. Hoffem gael safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â rhesymoldeb y pellter hwn er mwyn sicrhau amddiffyniad priodol rhag effaith sŵn sy’n deillio o ganiatáu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gosod peiriannau gwerthu gwrthdro.

**Cwestiwn 24**

A ydych chi’n cytuno bod y pellter 15 metr oddi wrth gwrtil adeilad a ddefnyddir at ddibenion preswyl yn bellter digonol i liniaru effaith sŵn ailgylchu gwydr? Os na, a oes gennych unrhyw wybodaeth a fyddai’n helpu i gyfiawnhau pellter gwahanol?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 25**

A ydych chi’n credu bod y cyfyngiadau eraill ar y dosbarth datblygu a ganiateir newydd o dan Ran 42 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 yn dderbyniol?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 26**

A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â pheiriannau gwerthu gwrthdro nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi?

## 7. DATBLYGIAD GAN YMGYMERWYR STATUDOL – TRYDAN

7.1 Wrth i'r Deyrnas Unedig symud tuag at ddatgarboneiddio, disgwylir i'r galw am gapasiti'r grid gynyddu. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod yn adolygu trefniadau cydsynio ar gyfer rhwydweithiau dosbarthu, ac roedd ei galwad am dystiolaeth ynglŷn â Hawliau Tir a Chydsyniadau ar gyfer Seilwaith Rhwydwaith Trydan (Awst 2022) yn cynnwys pwyslais ar hawliau datblygu a ganiateir. Gan fod caniatâd cynllunio a hawliau datblygu a ganiateir cysylltiedig yn fater datganoledig, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu a yw'r diwygiadau a wnaed yn yr Alban ac a gynigir yn Lloegr yn berthnasol ac yn addas i Gymru.

7.2 Diben y newidiadau arfaethedig canlynol i hawliau datblygu a ganiateir yw galluogi ymgymerwyr trydan i ateb y galw cynyddol gan ddefnyddwyr am wasanaethau. Maen nhw hefyd yn cyd-fynd yn agos â'r newidiadau a gynigiwyd gan ddiwygiadau arfaethedig Llywodraeth yr Alban yr ymgynghorwyd arnynt yn 2023, er mwyn rhoi cysondeb i hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer ymgymerwyr trydan.

7.3 Mae Dosbarth G Rhan 17 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 yn rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad gan ymgymerwyr statudol ar gyfer cynhyrchu, trosglwyddo neu gyflenwi trydan. Mae Dosbarth G yn galluogi ymgymerwyr trydan i gynnal gosodiad ac adnewyddu gosodiadau o fathau amrywiol, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau. Yn gryno, mae dosbarth G yn caniatáu:

- Llinellau trydan, siafftiau, twneli, pileri bwydo neu wasanaeth, neu orsafoedd newidydd neu switshis;
- Gosod ac amnewid llinell gyfathrebu electronig sy'n cysylltu unrhyw ran o linell drydan ag unrhyw waith trydan neu adeilad;
- Suddo tyllau turio a gosod peiriannau i wneud hynny;
- Ymestyn neu newid adeiladau ar dir gweithredol;
- Codi adeilad ar gyfer gwarchod peiriannau neu beirianwaith, ar dir gweithredol; ac
- Unrhyw ddatblygiad arall a gynhelir o fewn, ar neu dros dir gweithredol.

7.4 Ni chaniateir datblygiad o dan ddosbarth G gan gyfyngiadau a fwriedir i sicrhau nad yw datblygiad yn cael effaith niweidiol ar amwynder defnyddiau tir cymdogol.

Ymgynghorodd Llywodraeth yr Alban ar newidiadau arfaethedig i'r cyfyngiadau hyn ym mis Mai 2023, a ystyrir yn fanylach isod.

7.5 Ystyriwn fod cynigion Llywodraeth yr Alban yn galluogi ymgymerwyr trydan i gynnal mwy o ddatblygiad ar lefel addas heb achosi effaith niweidiol sylweddol ar drydydd partïon.

7.6 Mae Dosbarth G yn amlinellu datblygu a ganiateir gan ymgymerwyr statudol ar gyfer "cynhyrchu, trosglwyddo neu gyflenwi trydan". Nid yw'r diffiniad hwn yn adlewyrchu arferion modern sy'n esblygu, ac yn enwedig y nifer gynyddol o wasanaethau mesurydd deallus a ddarperir a ddyluniwyd i fonitro defnydd o drydan domestig. Ystyriwn ei bod yn briodol cynnwys gwaith sy'n ymwneud â dulliau cyfathrebu mesurydd deallus yn benodol yn y diffiniad o waith a amlygir yn Nosbarth G.

**Cwestiwn 27**

A ydych chi'n cytuno y dylai'r diffiniad o ymgymerwyr statudol gael ei ddiwygio i alluogi darparu gwasanaethau mesurydd deallus?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

7.7 Mae Dosbarth G (a) yn caniatáu datblygu "… gorsafoedd newidydd neu switshis neu siambrau sy'n angenrheidiol mewn cysylltiad â llinell drydan". Ni chaniateir datblygiad o dan Ddosbarth G (a) (a amlygir ym mharagraff G.1 (a) (ii) Atodlen 2 Gorchymyn 1995) "pe byddai'n golygu neu'n cynnwys gosod neu amnewid, ar neu uwchben lefel y ddaear neu o dan briffordd a ddefnyddir gan draffig cerbydol, siambr ar gyfer cadw cyfarpar ac y byddai capasiti'r siambr yn fwy na 29 metr ciwbig".

7.8 Ymgynghorodd Llywodraeth yr Alban ar gynyddu'r maint a ganiateir ar gyfer gosodiad o'r fath o 29 metr ciwbig i 45 metr ciwbig. Y rheswm dros y cynnydd arfaethedig oedd darparu ar gyfer rhai dyluniadau safonol a ddefnyddir ar draws y rhwydwaith trydan, galluogi mynediad mwy diogel ar gyfer cynnal a chadw ac amnewid seilwaith presennol â mwy o gapasiti i fodloni'r galw.

7.9 Amlygodd Llywodraeth yr Alban y gallai'r cynnydd mewn maint a ganiateir gan y newid hwn gael effaith niweidiol ar amwynder a chynigiodd gyfyngiadau

ychwanegol i leihau'r posibilrwydd hwn, nad ydynt yn atal amnewid "cyfatebol" pan fydd datblygiad o'r fath eisoes wedi'i leoli o fewn 5 metr o annedd, sef:

- Ni allai datblygiad o'r fath fod yn fwy na 3 metr o uchder; ac
- Ni allai maint y datblygiad fod yn fwy na 29 metr ciwbig pe byddai o fewn 5 metr o annedd.

7.10 Cynigiwn gyflwyno cyfyngiadau tebyg ar y cynnydd mewn maint a ganiateir ar gyfer is-orsafoedd trydan, er mwyn osgoi effaith niweidiol ar amwynder sy'n deillio o amnewid seilwaith presennol.

**Cwestiwn 28**

A ydych chi'n cytuno â chynyddu maint datblygu a ganiateir ar gyfer gosodiad trydan o 29 metr ciwbig i 45 metr ciwbig, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau diwygiedig arfaethedig nad yw unrhyw osodiad amnewid yn fwy na 3 metr o uchder ac nad yw'n fwy na 29 metr ciwbig os yw o fewn 5 metr o annedd?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

7.11 Yn nodweddiadol, mae ymgymerwyr trydan yn cynnwys llinellau telathrebu a ddefnyddir i fonitro'r rhwydwaith, a sicrhau ei ddiogelwch, o fewn y seilwaith trydan. Gall y cyfarpar telathrebu hyn fod yn wifredig neu'n ffeibr optig. Weithiau, fodd bynnag, gall y rhwydweithiau telathrebu hyn gael eu gosod ar wahân.

7.12 Mae Dosbarth G (b) Rhan 17 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 yn caniatáu "gosod neu amnewid unrhyw [linell gyfathrebu electronig] sy'n cysylltu unrhyw ran o linell drydan ag unrhyw waith trydan neu adeilad, a gosod neu amnewid unrhyw strwythur cynhaliol ar gyfer unrhyw linell o'r fath".

7.13 Mae Dosbarth G (b) wedi'i gyfyngu gan ddosbarth G.1 (b) y Gorchymyn, sy'n datgan na chaniateir datblygiad:

- lle byddai'n digwydd mewn Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
- lle byddai uchder unrhyw strwythur cynhaliol yn fwy na 15 metr; neu
- lle byddai'r llinell yn fwy na 1,000 metr o hyd.

7.14 Er mwyn cynyddu effeithlonrwydd y rhwydwaith seilwaith trydan a’r system gynllunio, cynigiwn ddiwygio Dosbarth G (b) i alluogi amnewid llinell gyfathrebu electronig bresennol sydd o fewn Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig heb fod angen ceisio caniatâd cynllunio. Byddai hyn yn cael ei gyfyngu gan ofyniad bod yr ymgymerwr trydan yn sicrhau bod uchder, dyluniad neu safle’r llinell gyfathrebu newydd yn adlewyrchu uchder, dyluniad neu safle’r llinell gyfathrebu bresennol.

**Cwestiwn 29**

A ydych chi’n cytuno y dylai ymgymerwyr trydan allu amnewid llinell gyfathrebu drydan bresennol mewn Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig heb fod angen ceisio caniatâd cynllunio, ar yr amod bod uchder, dyluniad neu safle’r llinell gyfathrebu newydd yn adlewyrchu uchder, dyluniad neu safle’r llinell gyfathrebu bresennol?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

7.15 Hoffem gael safbwyntiau rhanddeiliaid hefyd ynglŷn â’r terfyn 1,000 metr a osodir gan Ddosbarth G.1 (b) y Gorchymyn.

**Cwestiwn 30**

A ydych chi’n credu bod y terfyn 1,000 metr ar amnewid llinell gyfathrebu electronig bresennol yn rhesymol ac yn gymesur o hyd, o ystyried y cyfyngiadau eraill ar uchder, dyluniad, a safle’r llinell gyfathrebu newydd?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

7.16 Mae Dosbarth G (c) Rhan 17 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 yn caniatáu “suddo tyllau turio i ganfod natur yr isbridd a gosod unrhyw beiriannau neu beirianwaith sy’n rhesymol angenrheidiol mewn cysylltiad â thyllau turio o’r fath”. Mae

Dosbarth G (c) wedi'i gyfyngu gan Ddosbarth G.2 (c) y Gorchymyn, sy'n mynnu bod peiriannau neu beirianwaith yn cael eu symud ymaith, a bod y tir yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol, ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau neu ar ddiwedd cyfnod o 6 mis, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Effaith y cyfyngiad a osodir gan Ddosbarth G.2 (c) yw bod rhaid i'r gwaith gael ei orffen o fewn 6 mis o'i ddechrau, neu bydd rhaid ceisio caniatâd cynllunio.

7.17 Mae lefel ac ystod y gwaith ymchwiliol sy'n ofynnol i asesu addasrwydd safleoedd ar gyfer ymgymeriadau trydanol wedi ehangu, ac fe all gynnwys gwaith fel suddo tyllau turio cylchdro, archwilio mawn, cloddio pyllau treialu, a monitro dŵr a nwy daear. Cynigiwn gynnwys gwaith o'r fath o fewn y gwaith y gall ymgymerwyr trydan ei wneud o dan Ddosbarth G (c). Byddai gwaith o'r fath yn parhau i gael ei gyfyngu gan G.2 (c), fel y crynhoir uchod.

**Cwestiwn 31**

A ydych chi'n cytuno â'r diffiniad ehangach arfaethedig o waith ymchwilio a ganiateir o dan Ddosbarth G (c) Rhan 17 Atodlen 2 Gorchymyn 1995?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

7.18 Mae Dosbarth A Rhan 2 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 yn galluogi codi, adeiladu, cynnal a chadw, gwella neu newid giât, ffens, wal neu ddull amgáu arall. Cyfyngir hyn gan Ddosbarth A.1 lle byddai'r dull amgáu yn fwy nag 1 metr o uchder pe byddai gerllaw priffordd, neu fel arall yn fwy na 2 fetr o uchder, neu byddai dull amgáu gwell neu wedi'i newid yn uwch na'r un gwreiddiol.

7.19 Cyflwynodd Rheoliadau Diogelwch, Ansawdd a Pharhad Trydan 2002 fesurau newydd yn ymwneud â darparu amgaeadau o amgylch gweithrediadau trydan er mwyn gwella diogelwch cyhoeddus. Mae Erthygl 11 Rheoliadau 2002 yn amlinellu'r gofyniad i ddull amgáu is-orsaf drydan fod yn ffens neu'n wal nad yw'n llai na 2.4 metr o uchder.

7.20 Bwriadwn gyflwyno is-adran hawl datblygu a ganiateir newydd o dan Ddosbarth G rhan 17 Atodlen 2 Gorchymyn 1995, ar gyfer ymgymerwyr trydan yn unig, i'w galluogi i adeiladu dull amgáu sy'n bodloni'r dyletswyddau a osodir arnynt gan Reoliadau 2002, heb fod angen ceisio caniatâd cynllunio. Er mwyn sicrhau

cydymffurfedd â Rheoliadau 2002, cynigiwn na ddylai uchder amgaead o'r fath fod yn fwy na 2.5 metr.

| |
|---|
| **Cwestiwn 32** |
| A ydych chi'n cytuno â chyflwyno hawl datblygu a ganiateir newydd ar gyfer ymgymerwyr trydan o dan Ddosbarth G (c) Rhan 17 Atodlen 2 Gorchymyn 1995, i'w galluogi i adeiladu dull amgáu yn unol â'u dyletswyddau o dan Erthygl 11 Rheoliadau Diogelwch, Ansawdd a Pharhad Trydan 2002? |
| Ydw |
| Nac ydw |
| Ddim yn gwybod |
| Rhowch eich rhesymau |

| |
|---|
| **Cwestiwn 33** |
| A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â thrydan nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi? |

## 8. SAFLEOEDD TAI FFORDDIADWY A DEFNYDDIAU YN Y CYFAMSER

8.1 Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig ynglŷn â sefydlu Tasglu Cartrefi Fforddiadwy ar 6 Tachwedd 2024. Mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn uniongyrchol gysylltiedig â darparu mwy o gartrefi. Mae gan y Tasglu ddwy ffrwd waith i archwilio beth arall y gellir ei wneud i helpu i ddarparu mwy o gartrefi fforddiadwy, gan edrych ar yr heriau tymor byr a thymor hir.

### Defnyddiau yn y cyfamser

8.2 Yn ei ffrwd waith tymor byr, mae'r Tasglu wedi bod yn ystyried rôl tai argyfwng i fynd i'r afael â digartrefedd. Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi defnyddio eu hawliau datblygu a ganiateir brys yn Rhan 12A Gorchymyn 1995 i fynd i'r afael â'r argyfwng tai.

8.3 Mae "defnyddiau yn y cyfamser" yn golygu defnyddiau tir dros dro tra bod defnydd bwriadedig tymor hwy o'r tir yn cael ei baratoi. Mae'r dull wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu tai fforddiadwy fel defnydd yn y cyfamser. Mae tai parod neu fodiwlaidd wedi cael eu cydosod ar safleoedd y mae awdurdod lleol yn berchen arnynt sydd wedi'u clustnodi ar gyfer cynlluniau yn y tymor hwy. Er bod

y tai'n bodloni safonau lle, bydd rhyw ofyniad polisi fel arfer, er enghraifft o ran gosodiadau ffyrdd a mannau agored, nad yw'n cael ei fodloni. Yn aml, dilynwyd hawliau brys a ganiateir gan gais cynllunio am ganiatâd cynllunio dros dro ar gyfer y defnyddiau yn y cyfamser hyn.

8.4 Mae'r caniatâd cynllunio brys a amlinellir yn Rhan 12A yn para am flwyddyn. Fodd bynnag, mae adrannau tai sy'n hyrwyddo defnyddiau yn y cyfamser yn gofyn a ellir ymestyn yr hawliau datblygu brys a ganiateir er mwyn lleihau'r beichiau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno cais cynllunio.

8.5 Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol ymestyn y cyfnod a roddir ar gyfer hawliau datblygu brys a ganiateir o ystyried natur eang y datblygiad y mae'n ei hwyluso. Felly, rydym yn ystyried creu dosbarth datblygu a ganiateir newydd o fewn Rhan 12A yn benodol ar gyfer defnyddiau yn y cyfamser ar gyfer tai fforddiadwy a fyddai'n ymestyn y cyfnod defnydd.

8.6 Byddai hawl datblygu a ganiateir benodol ar gyfer defnyddiau tai yn y cyfamser yn caniatáu i gyfyngiadau gael eu teilwra'n benodol i dai, fel cyfyngu ar edrych drosodd trwy bellterau rhwng ffenestri cyfanheddol a gwydriad cymylog. Byddai hefyd yn rhoi cyfle i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gael eu rhestru'n ddatblygwr dibynadwy ar gyfer datblygiadau o'r fath ochr yn ochr ag awdurdodau lleol.

8.7 Y pryder mwyaf ynglŷn â hawl datblygu a ganiateir o'r fath fyddai colli'r ymgynghoriad cyhoeddus sy'n ofynnol ar hyn o bryd yn rhan o benderfynu ar gais cynllunio. Er y gellir mynnu bod cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r datblygiad, ni fyddai'n disodli gallu'r cyhoedd i ddylanwadu ar egwyddor neu ffurf y datblygiad. Croesawn eich safbwyntiau ynglŷn â'r cyfyngiad amser priodol ar gyfer defnydd yn y cyfamser a ph'un a oes dull priodol sy'n gallu mynd i'r afael â'r diffyg ymgynghori.

**Cwestiwn 34**

A ydych chi'n cytuno â chyflwyno hawl datblygu a ganiateir newydd yn Rhan 12A ar gyfer defnyddiau tai yn y cyfamser? Am ba gyfnod hwyaf y dylai tai yn y cyfamser bara?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 35**

Yn ogystal â rheolaethau ar ffenestri ystafelloedd cyfanheddol sy'n rhy agos i'w gilydd, pa gyfyngiadau eraill y dylai'r hawl datblygu a ganiateir ar gyfer defnydd yn y cyfamser fod yn ddarostyngedig iddynt?

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 36**

A ydych chi'n credu na ddylai darpariaeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gael ei chynnwys yn yr hawl datblygu a ganiateir newydd ar gyfer defnyddiau tai yn y cyfamser? Os na, pa ddull ar gyfer cyhoeddusrwydd neu ymgynghori â'r cyhoedd y dylid ei gynnwys?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Tai fforddiadwy parhaol**

8.8 Rhoddir ystyriaeth i ddarparu tai fforddiadwy yn y tymor hwy a ph'un a ellir darparu tai fforddiadwy yn llwyddiannus trwy hawliau datblygu a ganiateir. O ystyried y rheidrwydd cymdeithasol i adeiladu mwy o dai cymdeithasol, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn awyddus i ddileu rhwystrau yn y broses ddatblygu. Mae datblygu a ganiateir yn un dull sy'n cael ei ystyried gan fod y sector tai cymdeithasol wedi nodi rhwystrau ac oedi sy'n gysylltiedig â'r broses ceisiadau cynllunio.

8.9 Mae hawliau datblygu a ganiateir yn cyfrannu at ddileu datblygiad annadleuol ar raddfa lai sydd ag effeithiau cynllunio derbyniol o lwyth gwaith Awdurdodau Cynllunio Lleol. Gallant felly ganolbwyntio ar weithgareddau creu lleoedd mwy strategol.

8.10 Un o'r prif faterion sy'n atal defnyddio hawliau datblygu a ganiateir i ddarparu safleoedd tai cyfan yw ei bod yn anodd llunio cod sy'n cynnwys elfennau creu lleoedd datblygiad ar raddfa genedlaethol. Mae materion sy'n allweddol i greu lleoedd da, fel gosodiad, graddfa adeilad, seilwaith gwyrdd a darparu man agored, yn sensitif i amgylchiadau lleol. Felly, mae'n anodd pennu hyn ar gyfer datblygiadau tai ledled Cymru. Hoffem gael safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn ag i ba raddau y gall hawliau datblygu a ganiateir hwyluso datblygu safle cyfan.

Dyraniadau Cynllun Datblygu Lleol

8.11 Yn ein system a arweinir gan gynllun, amlinellir y lleoliad arfaethedig ar gyfer tai newydd yn y cynllun datblygu. Adolygodd ymchwil a gomisiynwyd yn 2012 sut oedd defnydd tir yn cael ei reoli yng Nghymru mewn system a arweinir gan gynllun – 'Dull Newydd o Fynd Ati i Reoli Datblygu yng Nghymru: Tuag at Ddeddf Gynllunio Gymreig.' https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/towards-a-welsh-planning-act.pdf Trafododd yr adroddiad sut roedd derbynioldeb tai yn cael ei sefydlu yn ystod cam cynllun datblygu'r system gynllunio ond yn cael ei ailystyried yn aml yn ystod y cam rheoli datblygu.

8.12 Argymhellodd yr adroddiad y dylai dyraniadau cynlluniau fod yn gyfrwymol, ond nododd fod safleoedd ymgeisiol yn destun craffu i raddau amrywiol yn ystod y cam llunio cynllun. Archwiliodd nifer o opsiynau ar gyfer lleihau'r amser a'r ymdrech sy'n ofynnol i gael cynigion datblygu trwy'r cam rheoli datblygu.

8.13 Ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, sefydlwyd 'caniatâd mewn egwyddor' yn Lloegr. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystyried p'un a yw proses gydsynio debyg â chwmpas llai yn bosibl trwy ddefnyddio hawliau datblygu a ganiateir.

8.14 Fel y nodwyd uchod, mae nodweddion unigol safleoedd yn golygu ei bod yn anodd gweithredu caniatâd cyffredinol, ond fe allai'r materion a godwyd gael eu goresgyn trwy ddull cymeradwyo rhai manylion o flaen llaw. Y pryder ynglŷn â'r dull cymeradwyo o flaen llaw yw efallai na fydd o fantais i ddarparu safleoedd tai fforddiadwy o gymharu â'r broses cais cynllunio. Fodd bynnag, gallai'r dull amgen hwn o gydsynio yn rhoi cyfle i leihau faint o wybodaeth sy'n ofynnol, gan ystyried yr asesiad yn ystod cam paratoi'r cynllun a datgan y tu hwnt i amheuaeth na ellir ailystyried egwyddor datblygu.

Cwmpas yr hawl datblygu a ganiateir

8.15 Gan dybio y byddai dosbarth datblygu a ganiateir newydd yn cael ei greu i roi caniatâd cynllunio ar gyfer dyraniadau Cynllun Datblygu Lleol, byddem yn gwerthfawrogi eich safbwyntiau ar gwmpas y caniatâd. Mae'r Tasglu'n ystyried tai fforddiadwy, ond gallai'r hawl datblygu a ganiateir gael ei chyfyngu ymhellach i ddyraniadau ar gyfer cartrefi rhent cymdeithasol yn unig, neu ei hymestyn i gynnwys yr holl ddyraniadau tai, gan gynnwys tai'r farchnad agored. Mae'n ofynnol i safleoedd tai'r farchnad agored ddarparu cyfran o dai fforddiadwy, felly maen nhw'n fuddiol gan eu bod yn cynyddu'r cyflenwad tai cyffredinol ac yn darparu cyllid i gyflwyno tai fforddiadwy. Byddai darpariaeth yn cael ei gwneud i sicrhau bod cyfraniadau ariannol a mesurau lliniaru eraill a ddarperir fel arfer ar

gyfer rhwymedigaethau cynllunio o dan adran 106 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn parhau i gael eu darparu.

8.16 Yn aml, defnyddir 'polisi eithriedig' i gyflwyno safleoedd sy'n darparu tai fforddiadwy yn gyfan gwbl, wedi'u lleoli gerllaw ffiniau anheddiad. Mae'r tir sy'n elwa o hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer dyraniadau safleoedd tai yn y Cynllun Datblygu Lleol yn eglur. Fodd bynnag, mae'r tir sy'n gysylltiedig â 'pholisi eithriedig' wedi'i seilio ar feini prawf yn llai eglur. Er hynny, o ystyried y cyfraniad y mae polisïau o'r fath yn ei wneud at y cyflenwad tai fforddiadwy, byddem yn croesawu eich safbwyntiau ynglŷn â ph'un a ddylid darparu ar gyfer 'safleoedd eithriedig' yn y dosbarth datblygu a ganiateir newydd.

**Cwestiwn 37**

A ddylai cynigion datblygu sy'n cydymffurfio â pholisïau 'safle eithriedig' gael eu cynnwys o fewn dosbarth hawl datblygu a ganiateir newydd? Os na, pam na ddylid cynnwys polisïau o'r fath?

Ie

Na

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

8.17 Bydd cymeradwyo o flaen llaw yn rhan o'r dull cydsynio datblygu a ganiateir yn bwysig i gynnal safonau uchel o ran creu lleoedd. Yn dibynnu ar lefel yr asesu yn ystod y cam llunio cynllun a ph'un a oes gwaith uwch-gynllunio wedi digwydd eisoes, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o wybodaeth am osodiad, graddfa adeiladau, seilwaith gwyrdd a darparu mannau agored. Rydym yn cynnig proses dau gam, fel hawliau datblygu a ganiateir presennol ar gyfer amaethyddiaeth a thelathrebu. Yn gyntaf, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cadarnhau faint o wybodaeth sy'n ofynnol. Bydd yr ail gam yn asesu'r manylion a ddarparwyd.

8.18 Rydym yn awyddus i gael eich barn ynglŷn â ph'un a oes angen proses dau gam i gwmpasu'r gofyniad am wybodaeth. Hoffem gael eich awgrymiadau hefyd ynglŷn â'r math o wybodaeth a faint o wybodaeth sy'n ofynnol i wneud penderfyniad cadarn yn ystod y cam cymeradwyo o flaen llaw sy'n creu llwybr cydsynio newydd sy'n darparu arbedion effeithlonrwydd o gymharu â llwybr cais cynllunio traddodiadol.

**Cwestiwn 38**

A ddylai cymeradwyo o flaen llaw fod yn broses dau gam lle mae'r cam cyntaf yn cynnwys cwmpasu'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chyflwyno?

Ie

Na

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 39**

Pa wybodaeth y dylid ei chyflwyno yn rhan o gyflwyniad am gymeradwyaeth o flaen llaw (neu mewn proses cymeradwyo o flaen llaw dau gam, beth fyddai'r rhestr o faterion y byddai awdurdod cynllunio lleol yn dewis o'u plith wrth gwmpasu'r hyn y dylid ei gyflwyno yn ystod yr ail gam)?

Esboniwch eich awgrymiadau.

**Cwestiwn 40**

Sut dylai lefel y wybodaeth a gyflwynir gael ei chadw'n gymesur â graddfa a chymhlethdod y datblygiad a bod yn ofyniad llai na hwnnw sy'n gysylltiedig â chais cynllunio?

Esboniwch eich awgrymiadau.

8.19 Un ffordd bosibl o leihau faint o wybodaeth sy'n ofynnol fyddai cyfyngu ar y mathau o dai a fyddai'n elwa o'r hawl datblygu a ganiateir. Er enghraifft, yr unig dai y gellid eu hadeiladu yw tai o fewn llyfr patrwm dyluniadau cymeradwy sy'n cydymffurfio â safonau lle. Byddem yn gwerthfawrogi eich safbwyntiau ynglŷn â ph'un a fyddai defnyddio llyfr patrwm yn lleihau'r baich asesu yn ystod y cam cymeradwyo o flaen llaw.

**Cwestiwn 41**

A oes buddion yn gysylltiedig â chyfyngu ar y mathau o dai y gellir eu hadeiladu o dan yr hawliau datblygu a ganiateir? Os oes, esboniwch ba fuddion a ddisgwylir.

Oes

Nac oes

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

8.20 Mae defnyddio hawliau datblygu a ganiateir yn un ffordd o greu llwybr mwy effeithlon tuag at gydsynio ar gyfer tai fforddiadwy. Mae'r is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i gyflwyno'r weithdrefn newydd yn haws ei chyflawni na'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r ymagwedd 'caniatâd mewn egwyddor' a ddefnyddir yn Lloegr. Mae gorchmynion datblygu lleol yn enghraifft o lwybrau cydsynio amgen a allai helpu i ddarparu tai fforddiadwy. Hoffem wybod a oes unrhyw ffyrdd eraill o ddarparu dulliau cydsynio amgen sy'n fwy effeithlon na cheisiadau am ganiatâd cynllunio.

**Cwestiwn 42**

A fydd defnyddio hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer darparu safleoedd tai fforddiadwy yn arbed amser a chostau o gymharu â chyflwyno cais cynllunio ar gyfer yr un datblygiad?

Ie

Na

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 43**

A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â thai fforddiadwy a defnyddiau yn y cyfamser nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi?

## 9. DIFFINIAD O DDATBLYGIAD MAWR

9.1 Wrth chwilio am weithdrefnau i'w dileu, mae'r Tasglu Cartrefi Fforddiadwy wedi bod yn ystyried gweithdrefnau cyn-ymgeisio, gan gynnwys rôl ymgynghori a gwasanaethau cyn-ymgeisio. Mae ymgynghori cyn-ymgeisio yn bwysig er mwyn helpu'r cyhoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau cynllunio ar gam pan all y dyluniad newid yn rhwydd ac addasu i sylwadau'r cyhoedd. Fodd bynnag, fe all oedi datblygiad llai yn sylweddol.

9.2 Er mwyn cyflymu'r broses ar gyfer cyflwyno safleoedd, byddem yn gwerthfawrogi eich safbwyntiau ynglŷn â ph'un a ddylid diwygio'r diffiniad o ddatblygiad mawr yn gysylltiedig â datblygiad tai. Diffinnir datblygiad mawr yn Erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Diffiniwyd datblygiad mawr yn wreiddiol yn y gorchymyn 2012 er mwyn hwyluso cyhoeddusrwydd ychwanegol ar gyfer datblygiadau mwy o faint. Pan gyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 y gofyniad ar gyfer gwasanaethau ac ymgynghori cyn-ymgeisio, defnyddiwyd y diffiniad i sbarduno'r gofynion hyn. Dyma'r diffiniad o ddatblygiad mawr:

> *ystyr "datblygiad mawr" ("major development") yw datblygiad sy'n cynnwys unrhyw un neu fwy o'r canlynol—*
> *(a) cloddio am fwynau a'u gweithio neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gweithio mwynau;*
> *(b) datblygiad gwastraff;*
> *(c) darparu tai annedd—*
>> *(i) pan fo nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu fwy; neu*
>> *(ii) pan fo'r gwaith datblygu i'w gyflawni ar safle y mae ei arwynebedd yn 0.5 hectar neu fwy ac nad yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn dod o dan baragraff (c)(i);*
>
> *(ch) darparu adeilad neu adeiladau pan fo'r arwynebedd llawr sydd i'w greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu*
> *(d) gwaith datblygu sy'n cael ei gyflawni ar safle y mae ei arwynebedd yn 1 hectar neu fwy;*

9.3 Rydym yn bwriadu cynyddu nifer yr anheddau o 10 i 25 er mwyn lleihau'r baich ymgynghori cyn-ymgeisio ar gyfer datblygiad lle mae effeithiau'r newid yn llai arwyddocaol o safbwynt cynllunio. Cydnabyddir y gallai'r newid hwn olygu bod mwy o geisiadau'n cael eu cyflwyno â chynigion a ddyluniwyd yn wael o ganlyniad i ddiffyg ymgysylltu â phreswylwyr lleol ac ymgyngoreion statudol. Hoffem gael eich safbwyntiau ynglŷn â ph'un a yw buddion y newid hwn yn drech na'r risgiau hyn.

9.4 Cydnabyddwn fod y gweithdrefnau cyn-ymgeisio statudol presennol yn cael eu pennu'n rhy hwyr yn y broses dylunio datblygiad i gael yr effaith fuddiol a fwriadwyd. Ni fwriadwyd erioed i ddeddfwriaeth ar ei phen ei hun gyflawni buddion ymgysylltu yn ystod y broses ddylunio, ac mae hyrwyddo arfer gorau yn allweddol i hyn. Fodd bynnag, mae newidiadau i'r ddeddfwriaeth hon yn cael eu hystyried ar wahân gan y Tasglu.

9.5 Wrth gynyddu nifer yr anheddau i 25 ym mharagraff (c)(i) y diffiniad o ddatblygiad mawr, rydym hefyd yn ystyried a ddylai'r arwynebedd safle diofyn cyfatebol o 0.5 hectar ym mharagraff (c)(ii) gynyddu hefyd, a byddem yn croesawu eich safbwyntiau ynglŷn â beth fyddai'n arwynebedd priodol.

**Cwestiwn 44**

A ydych chi'n cytuno y dylai nifer yr anheddau ym mharagraff (c)(i) y diffiniad o ddatblygiad mawr gynyddu i 25?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau

**Cwestiwn 45**

Pe byddai nifer yr anheddau'n newid, fel yr amlinellir yng nghwestiwn 9.1, a ddylai'r arwynebedd safle ym mharagraff (c)(ii) newid, hefyd?

Ie

Na

Ddim yn gwybod

Rhowch eich rhesymau ac, os ydych yn cytuno, nodwch beth fyddai'r arwynebedd safle priodol.

## 10. IAWNDAL AM DDILEU HAWLIAU DATBLYGU A GANIATEIR YN Y DYFODOL

10.1 Mae Adran 108 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu ar gyfer talu iawndal mewn rhai achosion lle mae caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a roddwyd trwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol yn cael ei dynnu'n ôl a lle, pan gyflwynir cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad hwnnw, y gwrthodir y cais neu y rhoddir caniatâd yn ddarostyngedig i amodau. Mae Adran 108 hefyd yn galluogi cyfyngu ar yr amgylchiadau y mae iawndal yn daladwy ynddynt.

10.2 Ers i bwerau gwneud rheoliadau Deddf Cynllunio 2008 i gyfyngu ymhellach ar iawndal ddechrau yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso'r terfynau diwygiedig hyn i'r holl hawliau datblygu a ganiateir newydd. Amlinellir y disgrifiad o ddatblygiadau y mae'r terfynau iawndal diwygiedig yn berthnasol iddynt yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) (Rhif 2) 2014 ("Rheoliadau 2014").

10.3 Ystyriwn fod y terfynau ychwanegol ar iawndal a ddarperir yn Rheoliadau 2014 yn taro cydbwysedd priodol rhwng digolledu datblygwyr am golledion sy'n gysylltiedig â tharfu yn ymwneud â diwygio caniatâd cynllunio a'i dynnu'n ôl, a budd y cyhoedd trwy leihau faint o arian cyhoeddus sy'n angenrheidiol i wneud hynny i'r eithaf.

10.4 Pan fydd yr hawliau datblygu a ganiateir a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu cyflwyno mewn deddfwriaeth, bwriadwn eu hychwanegu at y rhestr o ddatblygu rhagnodedig a amlinellir yn Rheoliad 2 Rheoliadau 2014. Bydd hyn yn golygu y bydd yr hawliau datblygu a ganiateir newydd a diwygiedig yn ddarostyngedig i'r terfynau iawndal a amlinellir yn y rheoliadau hynny.

10.5 Yr unig eithriad i'r dull hwn fyddai'r cynigion ynglŷn â newidiadau i ddatblygu a ganiateir ar gyfer ymgymerwyr trydan a amlinellir yn adran 7 uchod. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod paragraff 3 Adran 108 Deddf 1990 yn datgymhwyso'r adran mewn perthynas â chaniatâd cynllunio ar gyfer datblygu ar dir gweithredol ymgymerwyr statudol.

**Cwestiwn 46**

A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â iawndal am ddileu hawliau datblygu a ganiateir yn y dyfodol nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi?

## Ystyriaethau yn Ymwneud â’r Gymraeg

### Cwestiwn 47

Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion uchod ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

A ydych chi’n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

A ydych chi’n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?

### Cwestiwn 48

Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu’r cynigion er mwyn sicrhau:

- eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg; ac
- nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg?

## Ystyriaethau Cyffredinol

### Cwestiwn 49

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw’n benodol, gallwch wneud hynny yma:

**Crynodeb o'r Cwestiynau Ymgynghori**

| | **Pympiau Gwres o'r Aer** |
|---|---|
| C1 | A ydych chi'n cytuno y dylai amod G.3 (a), sy'n mynnu bod pwmp gwres o'r aer yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwresogi yn unig, gael ei ddileu er mwyn gallu gosod pwmp gwres aer i aer hefyd? |
| C2 | A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r cyfyngiad sy'n mynnu bod pwmp gwres o'r aer yn cael ei osod 3 metr oddi wrth ffin yr eiddo? |
| C3 | A ydych chi'n cytuno y dylai cyfaint allanol presennol pwmp gwres o'r aer gael ei gynyddu o 1 metr ciwbig i 1.5 metr ciwbig? |
| C4 | A ydych chi'n cytuno y dylai'r cyfyngiad presennol ar un pwmp gwres o'r aer ar neu o fewn cwrtil tŷ annedd gael ei gynyddu i uchafswm o ddau pan fo'r tŷ annedd yn eiddo ar wahân? |
| C5 | A ydych chi'n credu y dylai hawliau datblygu a ganiateir ganiatáu gosod pympiau gwres o'r aer ar neu o fewn cwrtil bloc o fflatiau annibynnol? |
| C6 | A ydych chi'n cytuno y dylid caniatáu pympiau gwres o'r aer ar wal sy'n wynebu priffordd (lle nad yw'r gosodiad o fewn Ardal Gadwraeth, ar adeilad rhestredig nac ar heneb gofrestredig)? |
| C7 | A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r cyfyngiad ar beidio â chaniatáu gosod pwmp gwres o'r aer lle mae tyrbin gwynt wedi'i leoli yng nghwrtil annedd? |
| C8 | A ydych chi'n cytuno y dylai'r cyfyngiadau a restrir ym mharagraff 2.33 uchod (ac o ran paragraffau 2.31-2.32) gynnwys cyfeiriad at gyfyngu ar osodiadau ar wal (neu do) tŷ annedd neu o fewn cwrtil tŷ annedd (gan gynnwys ar adeilad o fewn y cwrtil hwnnw) sy'n wynebu priffordd mewn Ardal Gadwraeth? |
| C9 | A ydych chi'n cytuno y dylai'r cyfyngiadau eraill a restrir ym mharagraff 2.33 uchod aros heb eu newid? |
| C10 | A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â phympiau gwres o'r aer nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi? |
| | **Gwefrwyr cerbydau trydan o fewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd** |
| C11 | A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r cyfyngiad sy'n datgan na all pwyntiau trydan wedi'u gosod ar wal ar gyfer gwefru cerbydau trydan wynebu priffordd a bod o fewn 2 fetr o briffordd? |
| C12 | A ydych chi'n cytuno y dylai'r uchder a ganiateir ar gyfer piler gwefru cerbyd trydan wedi'i leoli o fewn cwrtil tŷ annedd neu floc o fflatiau aros yn 1.6 metr? |
| C13 | A ydych chi'n cytuno y dylai'r uchder a ganiateir ar gyfer piler gwefru cerbyd trydan wedi'i leoli mewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd, ond nad yw o fewn cwrtil tŷ annedd neu floc o fflatiau, gael ei gynyddu o 1.6 metr i 2.7 metr? |
| C14 | A ydych chi'n credu y dylai fod llain glustogi leiaf rhwng piler gwefru cerbyd trydan 2.7 metr ac eiddo preswyl (gan gynnwys fflatiau)? |
| C15 | A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r cyfyngiad sy'n atal gosod piler gwefru trydan sy'n wynebu priffordd ac o fewn dau fetr o briffordd? |
| C16 | A ydych chi'n cytuno y dylai hawliau datblygu a ganiateir ganiatáu ar gyfer gosod uned gorchuddio cyfarpar neu gypyrddau storio sy'n |

| | |
|---|---|
| | angenrheidiol i gynnal pileri gwefru annomestig ar gyfer ailwefru cerbydau trydan? |
| C17 | A ydych chi'n cytuno â'r cyfyngiadau arfaethedig eraill ar gyfer unedau gorchuddio cyfarpar neu gypyrddau storio, gan gynnwys y cyfyngiad o hyd at 29 metr ciwbig o faint a dim mwy nag un uned fesul maes parcio? |
| C18 | A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â gwefrwyr cerbydau trydan wedi'u lleoli mewn ardal a ddefnyddir yn gyfreithlon ar gyfer parcio oddi ar y stryd nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi? |
| | **Safleoedd Gwersylla Dros Dro** |
| C19 | A ydych chi'n cytuno â'r bwriad i gadw Rhan 4 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 fel y'i hamlinellir uchod yn barhaol, gan ganiatáu defnyddiau tir dros dro am 60 niwrnod (neu 28 niwrnod ar gyfer marchnadoedd neu rasio cerbydau modur)? |
| C20A | A ydych chi'n cytuno â'r bwriad i gyflwyno mesur sy'n tynnu cydsyniad tybiedig yn ôl am ddefnyddio tir ar gyfer gwersylla o fewn 100 metr o gwrtil "adeilad a warchodir"? |
| C20B | A ydych chi'n cytuno â'r rhestr o fathau o dir sydd wedi'u heithrio o'r dosbarth newydd? |
| C21 | A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â safleoedd gwersylla dros dro nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi? |
| | **Peiriannau Gwerthu Gwrthdro** |
| C22 | A ydych chi'n cytuno â'r dimensiynau diwygiedig ar gyfer datblygu a ganiateir ar gyfer adeiladau allan peiriant gwerthu gwrthdro, hyd at uchafswm o 40 metr sgwâr, a hyd at uchafswm o 3.5 metr o uchder? |
| C23 | A ydych chi'n cytuno na ddylai Cynllun Dychwelyd Ernes fod yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau penodol yn ymwneud â chydsyniad hysbysebu ac y dylai fod yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau ag sy'n bodoli ar gyfer datblygiadau eraill tebyg, fel peiriannau codi arian? |
| C24 | A ydych chi'n cytuno bod y pellter 15 metr oddi wrth gwrtil adeilad a ddefnyddir at ddibenion preswyl yn bellter digonol i liniaru effaith sŵn ailgylchu gwydr? Os na, a oes gennych unrhyw wybodaeth a fyddai'n helpu i gyfiawnhau pellter gwahanol? |
| C25 | A ydych chi'n credu bod y cyfyngiadau eraill ar y dosbarth datblygu a ganiateir newydd o dan Ran 42 Atodlen 2 Gorchymyn 1995 yn dderbyniol? |
| C26 | A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â pheiriannau gwerthu gwrthdro nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi? |
| | **Ymgymerwyr Statudol – Trydan** |
| C27 | A ydych chi'n cytuno y dylai'r diffiniad o ymgymerwyr statudol gael ei ddiwygio i alluogi darparu gwasanaethau mesurydd deallus? |
| C28 | A ydych chi'n cytuno â chynyddu maint datblygu a ganiateir ar gyfer gosodiad trydan o 29 metr ciwbig i 45 metr ciwbig, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau diwygiedig arfaethedig nad yw unrhyw osodiad amnewid yn fwy na 3 metr o uchder ac nad yw'n fwy na 29 metr ciwbig os yw o fewn 5 metr o annedd? |

| | |
|---|---|
| C29 | A ydych chi'n cytuno y dylai ymgymerwyr trydan allu amnewid llinell gyfathrebu drydan bresennol mewn Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig heb fod angen ceisio caniatâd cynllunio, ar yr amod bod uchder, dyluniad neu safle'r llinell gyfathrebu newydd yn adlewyrchu uchder, dyluniad neu safle'r llinell gyfathrebu bresennol? |
| C30 | A ydych chi'n credu bod y terfyn 1,000 metr ar amnewid llinell gyfathrebu electronig bresennol yn rhesymol ac yn gymesur o hyd, o ystyried y cyfyngiadau eraill ar uchder, dyluniad, a safle'r llinell gyfathrebu newydd? |
| C31 | A ydych chi'n cytuno â'r diffiniad ehangach arfaethedig o waith ymchwilio a ganiateir o dan Ddosbarth G (c) Rhan 17 Atodlen 2 Gorchymyn 1995? |
| C32 | A ydych chi'n cytuno â chyflwyno hawl datblygu a ganiateir newydd ar gyfer ymgymerwyr trydan o dan Ddosbarth G (c) Rhan 17 Atodlen 2 Gorchymyn 1995, i'w galluogi i adeiladu dull amgáu yn unol â'u dyletswyddau o dan Erthygl 11 Rheoliadau Diogelwch, Ansawdd a Pharhad Trydan 2002? |
| C33 | A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â thrydan nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi? |
| | **Tai Fforddiadwy a Defnyddiau yn y Cyfamser** |
| C34 | A ydych chi'n cytuno â chyflwyno hawl datblygu a ganiateir newydd yn Rhan 12A ar gyfer defnyddiau tai yn y cyfamser? Am ba gyfnod hwyaf y dylai tai yn y cyfamser bara? |
| C35 | Yn ogystal â rheolaethau ar ffenestri ystafelloedd cyfanheddol sy'n rhy agos i'w gilydd, pa gyfyngiadau eraill y dylai'r hawl datblygu a ganiateir ar gyfer defnydd yn y cyfamser fod yn ddarostyngedig iddynt? |
| C36 | A ydych chi'n credu na ddylai darpariaeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gael ei chynnwys yn yr hawl datblygu a ganiateir newydd ar gyfer defnyddiau tai yn y cyfamser? Os na, pa ddull ar gyfer cyhoeddusrwydd neu ymgynghori â'r cyhoedd y dylid ei gynnwys? |
| C37 | A ddylai cynigion datblygu sy'n cydymffurfio â pholisïau 'safle eithriedig' gael eu cynnwys o fewn dosbarth hawl datblygu a ganiateir newydd? Os na, pam na ddylid cynnwys polisïau o'r fath? |
| C38 | A ddylai cymeradwyo o flaen llaw fod yn broses dau gam lle mae'r cam cyntaf yn cynnwys cwmpasu'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chyflwyno? |
| C39 | Pa wybodaeth y dylid ei chyflwyno yn rhan o gyflwyniad am gymeradwyaeth o flaen llaw (neu mewn proses cymeradwyo o flaen llaw dau gam, beth fyddai'r rhestr o faterion y byddai awdurdod cynllunio lleol yn dewis o'u plith wrth gwmpasu'r hyn y dylid ei gyflwyno yn ystod yr ail gam)? |
| C40 | Sut dylai lefel y wybodaeth a gyflwynir gael ei chadw'n gymesur â graddfa a chymhlethdod y datblygiad a bod yn ofyniad llai na hwnnw sy'n gysylltiedig â chais cynllunio? |
| C41 | A oes buddion yn gysylltiedig â chyfyngu ar y mathau o dai y gellir eu hadeiladu o dan yr hawliau datblygu a ganiateir? Os oes, esboniwch ba fuddion a ddisgwylir? |

| | |
|---|---|
| C42 | A fydd defnyddio hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer darparu safleoedd tai fforddiadwy yn arbed amser a chostau o gymharu â chyflwyno cais cynllunio ar gyfer yr un datblygiad? |
| C43 | A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â thai fforddiadwy a defnyddiau yn y cyfamser nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi? |
| | **Diffiniad o Ddatblygiad Mawr** |
| C44 | A ydych chi'n cytuno y dylai nifer yr anheddau ym mharagraff (c)(i) y diffiniad o ddatblygiad mawr gynyddu i 25? |
| C45 | Pe byddai nifer yr anheddau'n newid, fel yr amlinellir yng nghwestiwn 9.1, a ddylai'r arwynebedd safle ym mharagraff (c)(ii) newid, hefyd? |
| | **Iawndal am ddileu hawliau datblygu a ganiateir yn y dyfodol** |
| C46 | A oes unrhyw faterion cynllunio eraill yn ymwneud â iawndal am ddileu hawliau datblygu a ganiateir yn y dyfodol nad ydynt yn derbyn sylw yn y cwestiynau uchod ac y dymunwch eu codi? |
| | **Ystyriaethau yn Ymwneud â'r Gymraeg** |
| C47 | Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion uchod ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br>A ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?<br>A ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol? |
| C48 | Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r cynigion er mwyn sicrhau:<br>- eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac<br>- nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? |
| | **Ystyriaethau Cyffredinol** |
| C49 | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, gallwch wneud hynny yma |